

# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

**Rhifyn 374 - 60c  
Mehefin 2019**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Talent ifanc  
ym Myd  
Rygbi**



Tudalen 9

**Cadwyn  
Cyfrinachau  
Arall**



Tudalen 15

**Talent  
Newydd  
Lleol**



Tudalen 20

## Dathlu Doniau



Rob Phillips yn cael ei Urddo fel Maer Llambled, nos Wener  
Mai 3ydd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant



Alpha Evans, Cribyn yn ennill Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc  
yn Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg ar Sadwrn  
Mai 4ydd.

Parti Llefaru Aelwyd Llambled yn ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.  
Mae'r aelwyd wedi ennill am y pedwerydd tro yn olynol dan hyfforddiant Elin Williams.





# EISTEDDFOD

Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg ar Fai 4ydd



Enillwyr dan 10 oed = O'r chwith - Fflur Evans, Talgarreg - Ail am lefaru; Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni - Cyntaf ar yr Unawd; Elin Mai Morgan, Cribyn - trydydd ar yr unawd a chydodd trydydd ar y llefaru; Fflur McConnel, Aberaeron - Cyntaf ar y llefaru a thrydydd ar yr unawd. Fflur Morgan, Drefach - cydodd trydydd ar y llefaru.



Enillydd y llefaru 12-16oed oedd Elen Morgan, Drefach (canol), yn ail (chwith) Erin Morgan, Alltwalis a Lois Medi Jones, Llandre yn drydydd. Hefyd daeth Erin yn ail ar yr unawd 12-16 oed.



Cystadlaethau 10-12oed - o'r chwith- Mali Evans, Talgarreg, ail ar yr unawd a thrydydd ar y llefaru; Alwena Mair Owen, Llanllwni Cyntaf ar yr unawd a'r llefaru; Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig, ail ar y llefaru a thrydydd ar yr unawd.



Uchafbwyntiau'r mis ar  
**clonc360.cymru**

## ● DATHLU LLWYDDIANNAU CLWB RYGBI LLANYBYDDER

Fe gynaliwyd Noswaith Wobrwyo Clwb Rygbi Llanybydder ar nos Wener y 10fed o Fai, ac mae rhestr o'r enillwyr ar clonc360.



Enillwyr gwobrau Clwb Rygbi Llanybydder.

## ● BARRY YN CERDDED LLWYBR ARFORDIR CYMRU



Mae postmon cyfeillgar o Lanbed wedi dechrau ar her enfawr o gerdded 870 milltir Llwybr Arfordir Cymru o Gaer i Gasgwent mewn 33 diwrnod neu lai, er budd Ymchwil Canser.

Mae Barry Davies, neu Finch i'w gyfeillion yn gwneud hyn er cof am ei ddiweddar dad John 'Flash' James a golodd ei frwydr yn erbyn y clefyd ofnadwy yn 2015.

## ● PEDWERYDD PENWYTHNOS DARTIAU LLANBED

Dros benwythnos Gŵyl y Banc Calan Mai, cynhaliwyd 4ydd Penwythnos Dartiau Blyneddol yng Nghlwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan.

Nos Wener cawsom yr arddangosfa agoriadol flynyddol ac eleni cawsom gwmni Bob 'The Limestone Cowboy' a Terry 'The Bull' Jenkins, 2 lysenw addas iawn ar gyfer digwyddiad mewn ardal amaethyddol!



## ● ROB PHILLIPS YN FAER NEWYDD LLANBED

Mewn seremoni yng Ngholeg Llanbed sefydlwyd y Cyng Rob Phillips yn Faer newydd y dref.

Dyma'r ail dro iddo fod yn Faer yn Llanbed er nad yw o'r ardal yn wreiddiol. Un o ardal Merthyr Tydfil yw e sydd bellach yn byw yn Stryd Newydd gyda Delyth ei wraig a Tryfan y mab. Ganwyd ef ym mhentref Trelewis cyn symud i Bencoed ger Penybont ar Ogwr.



**Ffili aros tan y papur nesa'?**  
**- clonc360.cymru**



# Pwy yw pwy?

# Beth yw beth?

## Golygydd:

Mehefin Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683  
Gorffennaf Marian Morgan, Rhydyfelin, Drefach 481855  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Gareth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

## Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001  
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313  
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesfynnon 493325  
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmeri 481041  
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644  
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysggrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Y Papur Bro yn plesio

Mewn arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis Ebrill, mynegodd 88% bod cynnwys Papur Bro Clonc yn berthnasol neu berthnasol iawn. Mae hyn yn ogystal â chanfyddiadau eraill yn galonogol iawn o ystyried patrymau darllen papurau newydd yn gyffredinol. Ymatebodd nifer dda i'r holiaduron sef 94 o ddarllenwyr, a darganfyddwyd barn a gwybodaeth ddefnyddiol iawn er mwyn parhau i ddarparu papur bro yn ardal Llanbed yn ogystal â gwasanaeth unigryw gwefan Clonc360. O ystyried mai gwirfoddolwyr sy'n cynhyrchu'r papur bro, roedd y canfyddiadau'n dangos fod Clonc yn plesio'n fawr. Roedd 90% yn credu bod diwyg Clonc yn apelgar neu apelgar iawn. Roedd 98% yn credu bod Clonc yn hawdd neu'n hawdd iawn ei ddarllen. Byddai 87% yn fodlon talu £1 neu fwy am gopi o Clonc. Serch hynny, yng nghyfarfod blynyddol Clonc a gynhaliwyd nos Fawrth, gwelwyd nad oedd angen codi pris y papur ar hyn o bryd. Cadarnhawyd swyddogaeth graidd y papur bro wrth i 40% ddweud eu bod yn troi at newyddion y pentref/dref yn gyntaf wrth ddarllen Papur Bro Clonc. Ac mae hynny'n nodweddiadol o gryfder papur bro. Ble arall y cewch wybodaeth am ben-blwyddi arbennig, llwyddiannau lleol a cholledion yn ein cymunedau?

Roedd 100% o'r rhai a holwyd yn ymwybodol mai gwirfoddolwyr sydd yn gwneud Clonc o fis i fis, sy'n dangos bod gwreiddiau'r papur bro yn ddwfn yn yr ardal. Mae Papur Bro Clonc yn ffodus iawn bod cynifer o gwmnïoedd lleol yn hysbysebu yn y papur. Yn yr arolwg diweddar, dywedodd 93% o'r darllenwyr eu bod yn fodlon â'r hysbysebion ac nad oedden nhw'n amharu ar eu mwynhad o'r papur. Wrth holi am wefan Clonc360, ymatebodd 27 defnyddiwr, ac roedd y canfyddiadau'n ddiddorol iawn. Mae 81% yn credu bod cynnwys gwefan Clonc360 yn berthnasol neu'n berthnasol iawn ac mae 96% yn credu bod iaith y wefan yn hawdd neu'n hawdd iawn ei ddarllen. Dysgwyd bod pobl yn y gymuned sydd ddim yn cyfrannu ar hyn o bryd ond a fyddai'n dymuno cyfrannu tuag at Bapur Bro Clonc a gwefan Clonc360. Dangosodd yr arolwg bod 48% yn gwybod sut i gyfrannu i wefan Clonc360 ond bod 30% eisiau dysgu mwy. Dysgwyd hefyd y gellir cynyddu ar aelodaeth Clwb Clonc oherwydd bod 53% yn aelodau presennol a bod 33% yn dymuno bod. Gellir llenwi ffurflen ymaelodi â Chlwb Clonc yn y rhifyn hwn.

Y fflasiwn diweddaraf ymhlith papurau bro a chyhoeddiadau eraill yw lleihau maint y papur i A4, ond gwelwyd bod gwrthwynebiad i hynny. Roedd 63% am gadw i'r maint presennol o B4. Mae gwirfoddolwyr Clonc felly'n gwneud gwaith da, ac yn ateb y galw am newyddion lleol yn Gymraeg. Roedd 100% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod lle i Bapur Bro Clonc a gwefan Clonc360 ar hyn o bryd. Ond ar y llaw arall does dim galw am werthu copi digidol o'r papur bro. Canfyddiadau diddorol. Diolch i bawb a gymerodd ran. Mae'r canfyddiadau felly yn glod i bawb sy'n cyfrannu at lwyddiant Papur Bro Clonc a gwefan Clonc360 - gohebwy'r, golygyddion, dylunwyr, dosbarthwyr, plygwyr ac wrth gwrs y darllenwyr.

Cloncyn

CYMRAG

Ariennir yn  
rhannol gan  
Lywodraeth  
Cymru

Sefydlwyd 1797

**D. Lloyd a'i Feibion**  
Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr coed, ffensio  
a nwyddau adeiladu o  
bob math. Tanwydd gan  
gynnwys nwy FloGas a  
glo caled a meddal o'r  
ansawdd gorau**

Sicrhewch eich newyddion  
yn y papur hwn. Peidiwch  
â disgwyl i rywun arall  
ei gynnwys ar eich  
rhan. Mae'n rhy hwyr i  
achwyn ar ôl i CLONC  
ymddangos.



Mwy na brocer yswiriant.  
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?  
Yswirio'n lleol.

**Gwasanaethau Yswiriant FUW**

21 Stryd Fawr, Llanbed  
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Yn eiddo Ceredigion Insurance Plc. Cofrestrwyd ym 2014. Rhif Cyfrifwrdd: 01570 422556. Rhif Cyfrifwrdd: 01570 422556.

**DANIEL DOUGHTY**  
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables ■ Installation  
Maintenance ■ Breakdowns  
Boiler Servicing ■ Sprinklers

**07969 289679**  
d.doughty@plumbingandheating.co.uk



**Lifestyle Kitchens**

CELFI CEGIN A 'STAFELL  
WELY WEDI'U FFITIO,  
ATEGOLION CEGIN,  
CYFARPAR TRYDAN,  
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,  
LLANYBYDDER

**01570 480257**

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

**E. JONES**  
PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



## MEHEFIN

- 6 Gwersi Golff yn dechrau yng Nghlwb Cilgwyn Llangybi. 5.00yp i blant, 6.00yh i fenywod, 7.00yh i ddynion.
- 8 Stondin C.Ff.I Ceredigion yn Sioe Aberystwyth
- 12 Taith ddirgel Merched y Wawr, Llanbed yn gadael y Rookery am 1.45p.m. Enwau i Verina.
- 14 Rygbi 7 bob ochr yng Nghlwb Rygbi Llanbed
- 15 Gŵyl Bêl droed Llambled ar gaeau'r brifysgol gan ddechrau am 10.00yb.
- 16 Chwaraeon C.Ff.I. Cymru yn Aberystwyth
- 20 Taith Gerdded Castell Alltgoch 4 milltir. Cwrdd am 6.00yh a chodi arian tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020.
- 22 Gig Gwin a Mwg yng nghwmni Meic Stevens, Linda Griffiths ac Argyfwng Canol Oed yng Ngwinllan Llaethliw, Neuaddlwyd. Gataiu yn agor am 2.00y.p. ac yn dechrau am 3.00y.p. Oedolion £12, Plant Uwchradd £6 a phlant Cynradd am ddim. Tocynnau ar gael o Theatr Felin-fach. Trefnir gan Bwyllgor Apêl Cilcennin a Chiliau Aeron tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.
- 23-29 Wythnos Carnifal Llanybydder.
- 23 Oedfa flynyddol yng Nghapel Nonni, Llanllwni am 2.00y.p. Disgwylir y Parch Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr Cymraeg i bregethu. Croeso cynnes i bawb.
- 23 Sioe Geir a Beics yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. Cofrestru: 9-10y.b. Taith Geir: 12:30 yp Elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2020 a Neuadd Drefach.
- 23 Taith Gerdded Longwood. Dechrau am 1.00yp o Glwb Rygbi Llanbed a chodi arian tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020.
- 27 Cymanfa Ganu Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 2020 yn Soar Llanbed am 7.00yh.
- 28 Côr Meibion Cwmann a'r Cylch yn cyflwyno Noson o Adloniant gyda Mefus a Hufen yng nghwmni artistiaid ifanc yng Nghlwb Bowlio Llambled am 7.00y.h.
- 28 Cynhelir "Pnawn Pancws" yn Eglwys Santes Gwenog Llanwenog rhwng 2y.p a 6 y.h. Cewch glywed hanes yr Eglwys ac mi fydd drysau'r tŵr yn cael eu hagar i'r cyhoedd. Cyfle unigryw i ddringo'r grisiau mewnol i gopa Tŵr yr Eglwys a chael gweld yr olygfa arbennig. Bydd cyfran o'r elw yn mynd tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.
- 30 Gŵyl Ganol Haf - 'Cwrdd yn yr Ardd' gyda'r Undodiaid dan arweiniad y Parch. Cen Llwyd yng ngardd Ty Glyn, Ciliau Aeron am 2.00yp. Dewch â phicnic a chadair. Croeso cynnes i bawb!

## GORFFENNAF

- 2 Ffair Haf Ysgol Bro Pedr yn dechrau am 3.00yp.
- 6 Sioe Amaethyddol Llanbed.
- 6 Penwythnos cystadlaethau NFYFC yn Stafford
- 7 Diwrnod Hwyl Llanllwni ar gaeau chwarae'r pentref. Trefnir gan Bwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol ynghyd â'r Ysgol Feithrin a'r C.Ff.I. Carnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau, sêl cist car, barbaciw a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.
- 22-25 Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.
- 25-28 Arddangosfa Gelf Llanfair Clydogau.
- 27 Ffair Fwyd Llanbed ar dir y brifysgol gan ddechrau am 10yb.

## AWST

- 3 Carnifal Llanbed.
- 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychbant.
- 18 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 – 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Bro Pedr, Llambled.

## MEDI

- 14 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.
- 14-15 AGM C.Ff.I. Cymru yn Aberystwyth.
- 28 Cyngerdd Dathlu Côr Cardi-Gân yn 20 oed yn Theatr Felin-fach. Mwy o fanylion i ddod yn y misoedd nesaf!
- 29 'Pop up Pub' yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Cyfle i wyllo gêm Rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd. Elw tuag at Gronfa Leol Llanwenog a Llanwnnen, Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

## HYDREF

- 1 Cyfarfod Fforwn Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 12 Noson arbennig yng nghwmni Cwlwm, Delwyn Sion ac Ifan Gruffydd. Ffreutur Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant am 7.30 £15 yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Tocynnau gan Bwyllgor y Gronfa. Ann Morgan 07791 966122 neu Carys Lloyd Jones 07976 645957.
- 18 Eisteddfod Papurau Bro Llanybydder.
- 26 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

## TACHWEDD

- 2 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 16 John ac Alun a Clive Edwards yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint.
- 25-26 Ffair Aeaf ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.
- 30 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Aston Hall, Wrecsam.

**Rhifyn Gorffennaf**  
yn y Siopau  
**4 Gorffennaf**  
Erthyglau, Newyddion  
a Lluniau i law erbyn  
**24 Mehefin**

Wedi meddwl hysbysebu  
yn eich papur bro?  
Ceir prisiau rhesymol  
iawn  
gan ddechrau gydag  
hysbyseb bach yn

**£12 yn unig,**

a dim ond £72 am ddeg  
ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**Mae CLONC wastad yn chwilio  
am bobl newydd i helpu.**

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu  
dynnu lluniau?*

*Hoffech chi weinyddu'r wefan?  
Neu beth am waith dylunio?*

*Rydym yn chwilio am swyddogion  
hysbysebu a swyddogion gwerthiant.  
Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno  
â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes

CERBYDAU'R GORFFENNOL A'R PRESENNOL

## SIOE GEIR A BEICS

OCSIWN  
'SCOTT WILLIAMS MOTORSPORT RALLY CAR EXPERIENCE'

**DYDD SUL, 23 MEHEFIN**  
COFRESTRU: 9-10AM  
TAITH GEIR: 12:30PM

SIOE GEIR A'R DATII: £15  
SIOE GEIR: £10  
SIOE BEIC MODUR: £10

YSGOL DYFFRYN CLEDLYN, DREFACH, SA40 9SX  
CYSWLLT: sioeclair@gmail.com  
ELW: Eisteddfod Genedlaethol 2020 & Neuadd Drefach Hall  
Bwyd ar gael

**ANDREW JAMES**

**PLYMWR PROFIADOL**



**Registered  
Business**

Peiriannydd Gwres Canolog  
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw  
- Boileri a Ffynau Olew  
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r  
ddaeir a'r awyr  
- Paneli Thermal Solar  
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183  
aled.evans1@btinternet.com



Cafwyd diwrnod cyfnewid llyfrau llwyddiannus rhwng blynyddoedd 3 a 6 a diolch yn fawr iawn i Callum Wright o flwyddyn 6 am y syniad ac iddo fe a'i ffrindiau am drefnu. Diolch i Graham Marsh am ddod atom i gyflwyno tystysgrifau mewn gwasanaeth gwobrwyo i ddisgyblion blwyddyn 6 wedi iddynt gwblhau cwrs beicio'n ddiogel.

Daeth cryn lwyddiant i Cai Allan disgybl ym mlwyddyn 6 - fe wnaeth gipio'r wobwr gyntaf am "Pole Vaulting" yn yr Athletau Rhanbarthol a gynhaliwyd yn Abertawe yn ddiweddar a hefyd y wobwr gyntaf am y naid hir yn Athletau Dyfed - arbennig Cai. Hefyd yn Athletau Dyfed gwnaeth Hugo Douglas ddod yn drydydd yng nghystadlaethau y "sprint" a Kuba yn gwneud yn dda iawn hefyd.

Mae disgyblion blwyddyn 5 ar hyn o bryd yn mwynhau gwersi ar yr Hen Destament gan Mrs a Mrs Harvey o'r "Bible Explorers" a diolch iddynt am roi o'u hamser i ddod atom yn wirfoddol. Mae Lleucu Aeron o'r Urdd wedi bod yn gwneud sgiliau pêl gyda disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ac mae disgyblion blwyddyn 1 yn derbyn gwersi "Kerbcraft" sef atgyfnerthu rheolau croesi'r heol yn ddiogel. Diolch iddynt am ddod atom.

Bu disgybl ym mlwyddyn 6 sef Tomos Lloyd Jones ar daith fythgofiadwy gyda thîm pêl droed Tref Caerfyrddin i Barcelona lle cafodd gyfle i chwarae yn erbyn nifer o dimau o wledydd eraill a gwneud yn arbennig o dda. - da iawn ti Tomos. Yng nghystadlaethau Traws gwlad Sirol yr Urdd daeth Liam Regan yn 3ydd, Ellie Maie yn 4ydd a Katy Faye yn 5ed - da iawn chi.

Bu disgyblion bl 5 a 6 yn rhannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd â disgyblion yn Ysgol Dyffryn Cledlyn yn ogystal â gwlad Pwyl. Diolch yn fawr i Mr Eryl Jones am drefnu. Yng nghystadlaethau Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd daeth Sophie Cotton yn 5ed, Liam Regan yn 7fed a Katy Faye yn 10fed - da iawn a daliwch ati.

Daeth cryn lwyddiant ar ran yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2019 yn y cystadlaethau gwaith cartref. Yn yr adran Gelf a Chrefft Genedlaethol cipiodd Ifan Meredith y wobwr gyntaf am waith gwehyddu bl 7,8 a 9 a grŵp Sgiliau bywyd sef Leon Natalia a Chris hefyd yn ennill y gystadlaethau gwaith Creadigol ar gyfer bl 7,8 a 9. Cafodd Amber a Nikolas o Ganolfan y Bont y 3ydd wobwr am waith creadigol 2D bl 7 8 9 ac Elen Jones yn cipio'r 3ydd wobwr am grochenwaith ar gyfer disgyblion 7, 8 a 9. Llwyddodd Callum, Charlie, Niamh a Micah o flwyddyn 6 i gipio'r ail wobwr am waith llafar i ddysgwyr ac Elan Jones yn cipio'r 2il wobwr am gyfansoddi i ddisgyblion bl 10 ac 11 a'r 2il wobwr am gerdd rydd dan 19 oed. Da iawn bawb.



Diwrnod cyfnewid llyfrau llwyddiannus yn Ysgol Bro Pedr a diolch o galon i Callum bl 6 am y syniad ac am ei gymorth.




Llongyfarchiadau i Cai Allan Ysgol Bro Pedr ar ennill cystadlaethau "Pole Vaulting" ym mhencampwriaethau Athletau Rhanbarthol a gynhaliwyd yn Abertawe yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn o Ysgol Bro Pedr a fu'n cystadlu yn Athletau Dyfed – Cai Allan 1af (naid hir), Hugo Douglas 3ydd (sprint can medr) a Kuba wedi cystadlu'n dda hefyd. Da iawn bawb.



Da iawn i'r rhedwyr i gyd o Ysgol Bro Pedr am wneud yn arbennig o dda yng nghystadlaethau Traws gwlad Sirol yr Urdd a llongyfarchiadau mawr i Liam Regan ar ddod yn 3ydd, Ellie- Maie yn 4ydd a Katy Faye yn 5ed.



Disgyblion bl 6 Ysgol Bro Pedr yn danfon Neges Heddwch ac Ewyllys da yr Urdd i wlad Pwyl.



Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn Nhraws gwlad yr Urdd a llongyfarchiadau mawr i Sophie Cotton bl 3 ar ddod yn 5ed, Liam Regan bl 6 ar ddod yn 7fed a Katy Faye Kite bl 4 yn 10fed. Daliwch ati.





Disgyblion bl 5 a 6 Ysgol Bro Pedr yn cyflwyno Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn gan ddefnyddio Skype.



Rhai o aelodau Adran yr Urdd Llambed yn creu bathodynau personol yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 6 (y ddau ddosbarth) Ysgol Bro Pedr sydd wedi cwblhau hyfforddiant beicio yn llwyddiannus a diolch yn fawr i Graham Marsh am eu hyfforddi.



## Betws Bledrws



### Adran yr Urdd

Bu'r aelodau yn brysur yn cynllunio a gwneud bathodynau a diolch i Mr Griffiths a'r adran Dechnoleg am gael benthg y peiriant ac am yr adnoddau – rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Cawsom noson hyfryd yn addurno cacennau dan gyfarwyddyd Mrs Haf Meredith a diolch o galon iddi am roi o'u hamser i ddod atom ac am yr holl waith paratoi ymlaen llaw. Roedd y cacennau yn blasu'n hyfryd iawn hefyd. Rydym yn ffarwelio ag aelodau blwyddyn 6 ac yn diolch yn fawr iddynt am gefnogi a chynrychioli'r adran mor ffyddlon dros y blynnyddoedd. Dymunwn yn dda iddynt fel aelodau'r aelwyd yn mis Medi.



### Corwynt Hannah yn dinistrio Coeden Ffawyddden 200 oed

Chwythwyd y goeden nodedig hon yn St Michaels Betws Bledrws ger Llanbedr Pont Steffan i lawr yn y storm ddiweddar gan achosi llawer o ofid i bawb sydd â chysylltiadau â'r Eglwys a'r Fynwent. Mae'r gwaith o glirio'r goeden wedi dechrau ond mae'n dasg sensitif ac anodd. Os ydych yn gwybod hanes y goeden neu os oes gennych luniau ohoni, cysylltwch â ni. Rydym eisoes wedi dechrau codi arian ar gyfer talu am atgyweirio rhannau o'r eglwys ond ar ôl y difrod a achoswyd gan y storm, mae'n bwysig iawn ein bod yn adfer y fynwent mor fuan â phosib er mwyn iddi fod ar ei gorau unwaith eto. Os ydych am gyfrannu neu os oes gennych unrhyw wybodaeth, cysylltwch â Dinah Gibbons, Warden yr Eglwys. Rhif Ffôn -01570 493344. Cyfeiriad e-bost - gibbons.dj@hotmail.co.uk



# Llanbedr Pont Steffan



Y plant yn ymlacio ar ôl eu cyfraniad cyfoethog ar lafar ac ar gân yng Nghymanfa'r Bedyddwyr a gynhaliwyd ym Methel Silian.

## Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled yng nghapel Bethel Silian ar Sul Mai 19 a'r haul yn tywynnu. Llywyddwyd yn fedrus gan Elfyn Davies, Bethel Cwm Pedol ac estynnodd groeso cynnes i Emlyn Davies yr arweinydd, i Ann ac Alwena yr organyddion ac i bawb oedd wedi dod ynghyd i ganu mawl i Dduw. Datganodd ei bleser o weld cymaint o blant yn bresennol ar y galeri a llongyfarchodd eglwys Noddfa am barhau i gynnal Ysgol Sul yn yr oes sydd ohoni. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Iwan ac Erin, Bethel Silian. Er bod mwyafrif o'r plant yn ifanc iawn, roedd pob un wrth ei fodd yn canu ac yn cyhoeddi'r emynau gydag Elan o Noddfa â'u llais peraidd yn cynorthwyo'r plant trwy ganu pennill o 'Au Clair de la Lune'. Mwynhawyd gwledd yn eu cwmni dan arweiniad Emlyn a phawb yn ymateb yn dda i'w gyfarwyddiadau. Roedd gweld brwdfrydedd y plant wrth ganu 'Pen-blwydd hapus' yn llonni'r galon ac yn gwneud i bawb wenu. Hefyd pleser oedd gwrando ar ddatganiadau swynol gan ddau unawdydd ifanc sef Elliw o Fethel Silian a Deian o Fethel Cwm Pedol gyda Delyth ac Elfyn yn cyfeilio.


Gan fod eleni yn flwyddyn i goffâu canmlwyddiant marwolaeth Dr Timothy Richard y Cenhadwr a anwyd yn Ffaldybrenin, bu'r Llywydd yn rhoi ychydig o'i hanes i'r plant ac yna yn holi cwestiynau a chafwyd ymateb da iawn. Er nad oedd rhif y cantorion yn adran yr oedolion yn niferus iawn, roedd yr arweinydd yn uchel iawn ei ganmoliaeth o'r canu. Mae Emlyn yn arwain mewn ffordd gartrefol a di-ffws ac yn meddu ar y ddawn o dynnu'r gorau allan o'r cantorion. Diolchodd y Llywydd i Emlyn am ei wasanaeth clodwiw, i Ann ac Alwena am eu cyfraniad pwysig ar yr organ, i bawb a gymrodd ran ac i aelodau Bethel am y croeso. Talodd deymged uchel i'r plant am eu cyfraniad cyfoethog iawn a datganodd ei werthfawrogiad i Janet nid yn unig am baratoi'r plant ond hefyd am ei gwaith trylwyr fel ysgrifennydd y Gymanfa. Roedd pawb yn gytûn ein bod wedi cael prynhawn bendithiol a llwyddiannus iawn wrth ganu mawl i Dduw. Traddodwyd y

fendith gan y Parch Densil Morgan.


## Cymdeithas Hanes

Wieslaw Gdula oedd y siaradwr yng nghyfarfod Mis Mai, yn rhoi hanes teuluoedd y Pwyliaid a ddaeth i ardal Llambled yn union wedi'r Ail Ryfel Byd. Dod fel ffoaduriaid wnaethant bryd hynny, yn wahanol i'r Pwyliaid sydd wedi dod i'r ardal yn y blynyddoedd diwethaf fel mewnfydwyr yn chwilio am waith. Esboniodd sut y gwnaeth aelodau o'r fyddin Bwylaidd adael eu gwlad yn yr 1940au, gan ymuno â byddinoedd a'r awyrlu Prydeinig, a chymryd rhan yn y brwydrau ar hyd a lled cyfandir Ewrop. Eu gobaith oedd dychwelyd i'w gwlad wedi'r Rhyfel ddod i ben, ond oherwydd rheolaeth yr Undeb Sofietaidd, a'r wlad erbyn hynny o dan adain Comiwnyddiaeth, roedd hynny'n amhosibl. Sefydlwyd gwersyll dros dro ar draws gwledydd Prydain i roi lloches i'r Pwyliaid, - un ohonynt ger Aberaeron, - hyd nes y daethpwyd o hyd i waith ac ail gartrefu. Manteisiodd nifer ar y cyfle i fyw a gweithio yng ngorllewin Cymru, a sefydlodd 30 - 40 o deuluoedd o fewn ystod o 15 milltir i Llambed. Gwelir tystiolaeth o'r nifer a ymsefydlodd yn yr ardal wrth ymweld â mynwent Eglwys Sant Pedr yn y dref, lle mae yna randir gyda nifer o gerrig beddau ag arysgrifau yn yr iaith Bwyleg.

Ychydig o wybodaeth o fywyd ar y fferm oedd gan lawer, a bu'n rhaid dysgu'n gyflym. Yn ogystal â hynny, ychydig iawn o Saesneg oedd ganddynt. Sefydlwyd Canolfan Bwylaidd ar waelod Stryd y Bont, - lle saif busnes W.D.Lewis erbyn hyn, - lle medrent ddod at ei gilydd i gymdeithasu ac i gadw eu traddodiadau ynghyn, ac i gwrdd â'r offeiriad Pwylaidd oedd yn byw yn rhan o'r adeilad. Buan y dysgodd y plant Gymraeg a Saesneg yn yr ysgolion, ond yn siarad mamiaith eu rhieni ar yr aelwyd. Diolchwyd i Wieslaw am noson ddiddorol gan y Cadeirydd, a bu yna dipyn o siarad a hel atgofion ymysg yr aelodau a rhai o'r ffrindiau Pwylaidd yn y gynulleidfa. Hon oedd darlith olaf y tymor hwn, ond bydd yna daith i ymweld ag Aberglasne a Dinefwr ym mis Mehefin.



Dyma'r ddau lyfr. Mae'r llyfr diweddaraf yn ddilyniant o'r un cyntaf.



## Amgueddfa Llambled

### Mrs Lloyd George yn ymweld â Llambled, a'r helynt dilynol

Mae yna lyfryn ar werth yn yr Amgueddfa, sy'n adrodd hanes ymweliad Mrs Margaret Lloyd George â Llambled ar yr 17eg o fis Mehefin, 1919, sef union gan mlynedd yn ôl. Ond mae'r 'digwyddiad' a ddilynodd yn dangos y tensiynau oedd yn codi yn rhengoedd y blaid Ryddfrydol yng Nghymru ar y pryd. Roedd y Parchedig J.T Rhys, - un a fagwyd yn nhref Llambled, - yn Ysgrifennydd Personol i Mrs Lloyd George rhwng 1917 - 22, tra'r oedd hi a David Lloyd George yn rhif 10 Stryd Downing, - ac mae'r hanes yma wedi ei gasglu gan ei wŷr, sef Richard O'Brien sy'n byw yn Llundain. Dyma'r papur cyntaf o gyfres achlysurol y bwriedir eu cyhoeddi, a fydd yn canolbwyntio ar areithiau a draddodwyd gan Mrs Lloyd George, a chânt eu rhoddi yn archifau Lloyd George yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Yn ogystal â chyfeirio at ddigwyddiadau 1919, mae'r papur yn taflu golau newydd ar y tensiynau yn ystod yr 1860au, pan gosbwyd ffermwyr am wrthod pleidleisio i'w meistri tir Torïaidd. Cafwyd adroddiadau yn y wasg o ochr y Rhyddfrydwyr yn rhestru'r rhai a gafodd eu troi allan, tra bu'r wasg o ochr y Torïaid yn gwadu hynny. Roedd yna achos yn rheulu'r Rees /Rhys, ac mae'r dystiolaeth hynny yn cefnogi safbwynt y Rhyddfrydwyr. Mae'r astudiaeth yma yn ddilyniant i'r llyfryn a gyhoeddwyd y llynedd - 'Hanes teulu o Llambed 1870 - 1971', sy'n cwmpasu bywyd teulu'r Rees /Rhys o Llambed, ac sy'n cyd-redeg â'r casgliad sy'n cael ei arddangos am yr ail flwyddyn yn yr Amgueddfa. Drwy dynnu oddi wrth gopiâu o areithiau Mrs Lloyd George, o adroddiadau a ymddangosodd yn y papurau lleol ar y pryd, ac o lythyron ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol, mae'r hanes am Mrs Lloyd George yn teithio o Aberystwyth i Llambed drwy Aberaeron yn tanio sylwadau gan rai o'r cyhoedd gan ddweud nad oedd Llambled wedi rhoddi iddi'r derbynriad a fyddai'n deilwng i wraig y Prif Weinidog. Wrth edrych yn ôl, mae Richard yn gweld mai rhyw halibalw oedd y cyfan, ond eto i gyd yn dangos y tensiynau oedd yn codi rhwng cefnogwyr Lloyd George a chefnogwyr y 'Wee Frees', sef y rheini o blaid Asquith. Achosodd rwyg rhwng ei Dad-cu a'i frodyr, - Harry Rees o Llambed, sef Ysgrifennydd Y Gymdeithas Ryddfrydol yn Sir Aberteifi, - ac â George Rees, Sylfaenydd a Golygydd y Welsh Gazette. Mae'r ddau lyfryn ar werth yn Amgueddfa Llambled am £2 yr un, ac mae'r Amgueddfa yn ddiolchgar i Richard O'Brien am gyflwyno'r holl arian i gefnogi'r Amgueddfa yn nhref ei hynafiaid. Mae'r Amgueddfa ar agor Ddydd Mawrth a Dydd Iau 10 - 4, a Gwener a Sadwrn 11 - 2.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â phawb sydd wedi colli perthnasau yn ystod y mis.

## Cogydd Profiadol

Llongyfarchiadau i Bryan Beynon, Llain y Castell ar gyrraedd carreg filltir nodedig. Mae Bryan wedi bod yn gogydd llwyddiannus ers hanner canrif. Llongyfarchiadau oddi wrth ei gwsmeriaid i gyd.



Tim ieuencid Rygbi Llambled yn ennill Cwpan Ieuencid Ceredigion yn erbyn Aberystwyth 12-10. Llongyfarchiadau iddynt.



# Llanbedr Pont Steffan

## Penwythnos Dartiau

Dros benwythnos Gŵyl y Banc, cynhaliwyd 4ydd Penwythnos Dartiau Blynnyddol yng Nghlwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan. Nos Wener cawsom yr arddangosfa agoriadol flynyddol ac eleni cawsom gwmni Bob 'The Limestone Cowboy' a Terry 'The Bull' Jenkins, 2 lysenw addas iawn ar gyfer digwyddiad mewn ardal amaethyddol! Roedd y noson dan ofal ein harweinydd Kevin Murphy. Heriodd Bob a Terry ddetholiad amrywiol o'r dorf yn y Clwb gan gynnwys 5 Chwaraewr Iau o Academi Dartiau Iau Bedlam a sefydlwyd yn ddiweddar yn Llanbed. Cawsom hefyd westeion o bell fel yr Alban a Lloegr a Gogledd Cymru yn ogystal â'r ffyddloniaid a chynrychiolwyr gwerthfawr o Gynghrair Dartiau Tref Llanbed. Fel bob amser, roedd Cegin Pop Up ein Cigydd Albanaidd "Shotgun" John Taylor o Gigyddion Teuluol Taylor's yno. Hefyd, roedd yn ddigwyddiad codi arian blynnyddol. Eleni Elusen y Flwyddyn oedd Canser y Fron ac Ymchwil Canser y DU a chodwyd dros bum cant o bunnoedd mewn Rafflau, arwerthiant ac ychydig o gwisiau. Diolch i bawb a gefnogodd mor hael.

Ar ddydd Sadwrn, cafwyd cystadleuaeth dartiau agored poblogaidd Tref Llambod a bu 53 o ymgeiswyr yn cystadlu am eu cyfran o gronfa'r gwobrau o wyth can punt. Llongyfarchiadau i Justin Smith ar y fuddugoliaeth mewn rownd derfynol o ansawdd uchel iawn yn erbyn Huw Williams. Yr enillydd oedd Justin Smith ac yn ail, Huw Williams; Rowndiau cyn derfynol: Luke Colwill a Roy Morris; Rowndiau go gyn derfynol: Aled, Dai 'Na 9 Jones, Adam Godbeer a Lyn Williams. Y fenyw orau: Angharad Bessant-Burt; Yr uchaf o 164: Justin Smith; Rhediad dartiau 12 gorau: Aled Goled. Hefyd ddydd Sadwrn cawsom y newyddion ffantastig fod Brynmor Thomas, un o'r chwaraewyr Iau a chwaraeodd yn yr Arddangosfa Nos Wener wedi cymhwyso i gynrychioli Cymru yn y Cwpan Dartiau Ewropeaidd, Cwpan y Byd a Phencampwriaethau'r Byd yn Gibraltar ym mis Medi. Os oes unrhyw fusnes yn dymuno nodd Brynmor ar gyfer Gibraltar, cysylltwch â Bedwyr Davies yn Bishop of Bedlam Promotions ac yna fe fydd e'n anfon eich manylion ymlaen at Brynmor a'i deulu.

Roedd dydd Sul yn dawelach gyda'r Gystadleuaeth Arian mewn Arian Allan yn yr Ivy Bush gyda Peter Craig yn cymryd yr anrhydedd yn Rownd Derfynol yr Alban gyda David Purves. Diolch i'r holl Noddwyr am eu haelioni oherwydd heb eich help ni fyddem yn dal i allu cynnal y Penwythnos Dartiau: Geraint & Pearl Williams Garej Rhosybedw; Philip Jones Financial Solutions; S Jones a'i fab Cyf Bethania; James Davies Gwaith Saer Llanybydder; Ffensio Andrew Davies. Hefyd diolch yn fawr iawn i Glwb Rygbi Llanbed a Nicola a'r holl staff am eu croeso. I'r rhai sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Academi Dartiau Iau Newydd yn Llanbed, cysylltwch â Bedwyr neu chwiliwch am Bedlam Junior Darts Academy Llanbed ar Facebook.

## Urddo Trysorydd Noddfa yn Faer Llanbedr Pont Steffan

Nos Wener Mai 3ydd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn seremoni urddasol urddwyd Rob Phillips, trysorydd Noddfa, sydd yn Archifydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Faer y dref. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i un o swyddogion Noddfa dderbyn yr anrhydedd hon gan mai Ann Morgan ein hysgrifennydd oedd y Maer y llynedd. Offrymwyd gweddi agoriadol gan y Parch Densil Morgan ac yna cafwyd adolygiad o waith y Cyngor Tref am y flwyddyn a aeth heibio gan Ann. Yn ei anerchiad diolchodd y Maer newydd i Ann am ei gwasanaeth diffino i'r dref ac am ei brwdfrydedd a'i hegni. Aeth ymlaen i ddatgan ei werthfawrogiad i'r Cyngor am ei ethol yn Faer a hynny am yr eildro a thalodd deyrnged uchel i'r holl fudiadau, gwirfoddolwyr a'r busnesau lleol am eu gwaith pwysig. Ychwanegodd ei fod yn frwd iawn dros roi'r cyfle i bawb rannu syniadau ar sut i ddatblygu'r dref yn y dyfodol. Daeth y noson i ben gyda phawb yn cymdeithasu wrth fwynhau bwffe ardderchog.

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i Noddfa ar gyfer Oedfa'r Maer ar Fai'r 5ed. Croesawyd pawb gan ein Gweinidog y Parch Densil Morgan sydd hefyd yn Gaplan y Maer. Soniodd mai hyfryd oedd cael cwmni teulu Rob a Delyth ynghyd â'u ffrindiau. Yn ôl yr arfer, darllenwyd rhan o'r Beibl gan y Maer a chafwyd datganiad swynol gan Gôr Meibion Cwmann a Rob yn canu yn eu plith. Hefyd cyhoeddwyd y Gair gydag arddeliad gan ein Gweinidog ac roedd ei neges gofiadwy yn seiliedig ar adnodaau allan o lyfr y proffwyd Micah. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Llinos. Ar ran pawb yn Noddfa cyflwynwyd rhodd i Rob gan Janet. Fe'i llongyfarchodd ef a Delyth fel Maer a Maeres y dref heb anghofio eu mab bach Tryfan a dymunodd yn dda iddynt am y flwyddyn i ddod. Mae'r tri ohonynt yn ffyddlon iawn i'r oedfaon yn Noddfa a chyfraniad Rob a Delyth i fywyd yr Eglwys yn un amhrisiadwy ynghyd â'u gwasanaeth i'r gymuned. Talodd Alun deyrnged i'n Gweinidog am ei gyfraniad gwerthfawr, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan, i Llinos am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i'r gynulleidfa niferus am ddod ynghyd. Aeth pawb o'r Oedfa gan deimlo eu bod wedi derbyn bendith wrth ddod at ei gilydd i glodfori Duw ar achlysur mor arbennig. Yna cafwyd cyfle i gyfranogi o'r lluniaeth blasus yn festri Brondeifi ac i fwynhau sgwrs a rhoi'r byd yn ei le.



## Llewod Llambod

Rydym eisoes wedi gorffen ein tymor cyntaf yng nghynghrair Ceredigion ac rydym yn hapus iawn ein bod wedi sicrhau'r ail safle yn yr ail gynghrair. Mae'r merched i gyd wedi rhoi 100% ym mhob agwedd drwy gydol y tymor. O ystyried ein bod yn dîm newydd, llawn chwaraewyr sydd heb chwarae ers dyddiau ysgol gyda llawer o gyfrifoldebau tu allan i bêl-rwyd, rydym wedi gwneud yn hynod o dda. Diolch enfawr i gapten y clwb, Elen Davies sydd wedi bod yn ein cefnogi ym mhob gêm er ei bod wedi methu chwarae ei hunan yn ystod y tymor hwn. Hefyd diolch anferthol i Carwen a Lynn am ddyfarnu trwy gydol y tymor - swydd anodd iawn!!

Bob blwyddyn mae holl dimoedd y gynghrair yn cwrdd i ddathlu llwyddiant y tymor ac eleni y lleoliad oedd The Hungry Ram, Penuwch. Cawsom noson hyfryd a chyhoeddwyd mai Cardigan Diamonds oedd enillwyr y cynghrair cyntaf ac Aber Uni 3 oedd enillwyr yr ail gynghrair. Llongyfarchiadau i Natalie a Georgie a ddaeth yn ail fel chwaraewr y tîm ac i Carwen a oedd yn llawn haeddiannol o'r darian chwaraewr y tymor i'r Llewod. Llongyfarchiadau i'r holl dîm am eu hymrwymiad wrth droi lan yn y ddi-ffael pob wythnos a hefyd diolch yn fawr i'r holl chwaraewyr eraill yn y clwb am gefnogi.

Ers dechrau mis Ebrill mae'r clwb wedi bod yn rhan o gynghrair a drefnwyd gan 'Leagues4you' pob nos Lun gyda 2 tîm yn cynrychioli'r Llewod sef Llewod Llawen a'r Cubs. Mae'r ddau dîm yn gymysgedd o holl chwaraewyr y clwb. Pwrpas y gynghrair yma yw rhoi cyfle i'r rhai sydd eisiau chwarae gemau ond ddim yn dymuno chwarae yng nghynghrair Ceredigion gyda'r pwyslais o fod yn gemau cyfeillgar. Y ddau dîm arall sydd wedi ymuno â'r gynghrair yw Bont Blades a Tregaron Turfs. Rydym wedi chwarae sawl gêm yn barod ac erbyn hyn mae Llewod Llawen yn yr ail safle a'r Cubs yn y pedwerydd safle. Mae'r capteiniaid wedi pwysleisio ar berfformiadau anhygoel Catrin, Elin a Lisa, rhai o chwaraewyr ieuengaf y timoedd ynghyd â Sue sydd yn ddi-stop ar y cwrt. Edrychwn ymlaen at chwarae'r gemau sy'n weddill gan obeithio am ganlyniadau ffafriol.

Pen-blwydd hapus i ni! Mae blwyddyn wedi mynd ers sefydlu Llewod Llambod a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bob un sydd wedi bod ynghlwm â'r clwb - o'r rhai sydd wedi mynychu ymarfer, chwarae yn y gynghrair, chwarae mewn gemau cyfeillgar ac elusennol ac wedi mynychu cyfarfodydd a chysiau. Hefyd ein noddwyr a chyfranwyr ariannol, staff Canolfan Hamdden Llambod, yr addurnwyr fflôt, cynllunwyr bwrdd sgôr a chacen, trefnwyr trip ac ysgrifenyddion cymdeithasol, gohebyddion y wasg, pobl sy'n golchi'r cit ac i bawb sy'n rhoi 'lifts'. Mae pob un ohonoch yn amhrisiadwy a chi sy'n gyfrifol am lwyddiant y clwb. Diolch! Mae ymarfer pob nos Iau 7yh - 8.30yh yng Nghanolfan Hamdden Llambod.

## Merched y Wawr

Agorwyd noson ein cyfarfod blynnyddol trwy ganu cân y mudiad, yna ymlaen i ddelio gyda llawer o weithgareddau busnes. Llongyfarchodd Elin, ein llywydd, y cystadleuwyr a'r enillwyr a gymerodd ran yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth yn Felin-fach a dymunodd bob lwc i'r rhai oedd yn cystadlu yng Ngŵyl Genedlaethol Merched y Wawr ym Machynlleth. Cymhellodd Elin ni i barhau ar ein tasg o gasglu sbwriel, tynnu llun ein bagiau a rhoi gwybod i Mary faint ydym wedi casglu.

Tynnwyd sylw hefyd at ddigwyddiadau ynglŷn ag Eisteddfod 2020. Thema pabell Merched y Wawr fydd 'Merched Ceredigion Heddiw- choeliwch chi byth!' Mae Jill Lewis, yr is-lywydd cenedlaethol presennol yn mynd i arwain côr hwyliog i berfformio ar lwyfan y maes amser cinio ar y dydd Mercher. Bydd Jill yn cael ei hurddo yn llywydd ar yr un dydd. Mae hwn yn agored i aelodau Ceredigion a Phenfro. Bydd ymarfer cyntaf Ceredigion ar Fehefin 13eg yn Nhy Glyn Aeron am 7.30 y.h. pan fyddwn yn penderfynu pa ganeuon i'w canu.

Yn ystod ail ran y noson, pleser mawr oedd cael Eluned Mair i'n plith i siarad am ei gwaith fel seicolegydd. Croesawodd Elin hi trwy ddweud ei bod yn ei hadnabod ers yn blentyn bach. Merch Elaine a Dylan Iorwerth yw Eluned Mair. Priododd â Dorian eleni ac maent yn byw yn Alltbyblaca



# Llanbedr Pont Steffan

gyda'u whippet bach o'r enw Edgar. Graddiodd Eluned yn seicoleg o Gaergrawnt, yna aeth ymlaen i Fangor ac erbyn hyn mae'n astudio ar gyfer bod yn seicolegydd clinigol. Ar ôl cael swydd fel Gweithiwr Cefnogi i bobol ag anabledd dysgu a Seicolegydd Cynorthwyol gyda Thîm Anabledd Dysgu Cymunedol Ceredigion a Gwasanaeth Poen Cronig Hywel Dda, mae bellach yn Seicolegydd Clinigol dan Hyfforddiant. Golyga hyn ei bod yn gweithio yn y maes yn ogystal â threulio amser yn y brifysgol yng Nghaerdydd. Fe fydd hyn yn cymryd tair blynedd ac mae'n gobeithio cymhwyso yn 2021.

Cawsom noson ddiddorol ac addysgiadol a sylweddolwyd nad oedd llawer ohonom yn gwybod fawr ddim am waith seicolegydd clinigol. Siaradodd Eluned yn glir a dealladwy a'n cael i gymryd rhan mewn gemau cof a'r ffordd yr ydym yn gweld a dehongli pethau. Esboniodd beth yw seicoleg - ei fod ynghlwm â'r meddwl ac ymddygiad, ynghlwm â sut yr ydyn ni'n dysgu, cofio a siarad ein hiaith a hefyd ynghlwm â'n deallusrwydd. Mae gwaith beunyddiol Eluned yn golygu y gall weithio ar wardiau mewn ysbytai neu hyfforddi'r gweithwyr. Gall hefyd fod ynghlwm ag iechyd meddwl ac anabledd, gwaith cymdeithasol, ffloresig, chwaraeon, gwaith a busnes neu iechyd. Gall pobl wella ar ôl 6-8

sesiwn o therapi, ar ôl rhai misoedd neu hyd yn oed ar ôl blyneddau. Diolchwyd i Eluned Mair gan Noeleen. Diolchodd hefyd i Avril, Gwyneth a Morfudd am y lluniaeth. Byddwn yn cwrdd nesaf ar Fehefin 12fed am 13.45 ar y Rookery pan awn ar ein taith ddirgel. Diolch i Verina am wneud y trefniadau. Mae pawb yn edrych 'mla'n !

## Rygbi



Dyma lun o Gwenllian ar ôl iddi chwarae yn erbyn Lloegr ar y 30ain o Ebrill yn Stadiwm y Principality. Roedd yn chwarae i dîm "Wales Emerging Women" a oedd yn cynnwys chwaraewyr ifanc addawol Cymru ar hyn o bryd. Bu'r Garfan yn ymarfer 3 gwaith yr wythnos yn Y Vale Resort drwy gydol Ebrill. Roedd yr oriau hir o baratoi o fudd mawr, gan iddynt guro Lloegr 28-22 yn y diwedd mewn gêm gyffrous dros ben.

## Llangybi



Taith 7 disgybl blwyddyn 6 i Jelgava, Latfia

### Ysgol Y Dderi

Aeth 7 o ddisgyblion blwyddyn 6 ar daith i Jelgava, Latfia yn ddiweddar gyda Mrs Ann a Miss Sioned i fynychu prosiect menter a busnes. Roedd rhaid cyflwyno ein syniadau ar gynnyrch Cymreig eu naws i'w gwerthu mewn ffair ryngwladol yn yr Eidal ar ddiwedd mis Mai. Roeddem wedi datblygu bagiau, canhwylau a gwrthrychau pren sef llyfrnod, maged ac addurn allweddi. Roedden ni hefyd wedi ffilmio hysbyseb ar gyfer ein cynnyrch i ddangos yn y cyfarfod. Cawson ni adborth adeiladol iawn ac rydym yn brysur yn addasu ac

yn paratoi ein cynnyrch ar gyfer y ffair yn Agliana yn Yr Eidal cyn hir. Cawsom ddigon o gyfle i fwynhau hefyd - ymweld â chanolfan weithgareddau er mwyn datblygu sgiliau tîm, gweithdai cymhwysedd digidol i ddatblygu hysbysebion a gwefan i werthu ein nwyddau, ymweld â thŵr y dref a'r ogofau lleol. Cawsom groeso arbennig iawn ac mae gennym atgofion melyn i'w trysori am oes.

Diolch i Theatr Bypedau Cymru am berfformio sioe "Yr Ardd Hardd" i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar. Roedd y



Gweithdai ysbrydoledig gan Aaron Phipps sy'n chwarae rygbi cadair olwyn i dîm Prydain Fawr

plant wedi dwlu ar y cynhyrchiad a chafodd disgyblion blwyddyn 1 a 2 y cyfle i greu pypedau eu hunain mewn gweithdy a hyd yn oed cyfle i berfformio sioe bypedau eu hunain. Fel rhan o'u thema "I fyni fry!" daeth Steffan Jones i'r ysgol i ddangos sut i hedfan drôn gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4. Wel am hwyl! Tynnodd luniau o safle'r ysgol ac roedd yn ddigon o ryfeddod. Yn dilyn y profiad cyffrous yma daeth Mrs Delor James i'r ysgol i helpu'r disgyblion i ysgrifennu "Ymson Drôn". Roedd safon y gwaith yn arbennig. Daeth Mike Adams o 'Cadwyn Teifi' i gyflwyno gwasanaeth "Pam mae Cristnogion yn dathlu'r Pasg?" i'r ysgol gyfan. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn creu Gardd Basg yn Eglwys St Cybi, Llangybi a bu'r Bible Explorers yn cyflwyno sioe bypedau am y Pasg i holl blant yr ysgol. Llongyfarchiadau i dîm pêl droed y bechgyn a'r merched ar gyrraedd yr wyth olaf yn nhwrnamaint pêl droed yr Urdd ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ddiweddar. Dim ond colli un gêm bu hanes y ddau dîm ac roeddem yn falch iawn o'u perfformiadau cystadleuol ar y cae, a'u perfformiad bonheddig oddi ar y cae. Gwych!

Bu Mr Guto Aaron yn cynnal gweithdy Google Drive gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 fel rhan o'u thema "Doniau Digidol". Cafwyd diwrnod yn llawn rhyfeddodau technolegol a phrofiadau heriol iawn. Diolch i Mr Guto am baratoi gweithdy mor berthnasol. Llongyfarchiadau aruthrol i holl ddisgyblion yr ysgol ar eu llwyddiant ysgubol yn adran Celf a Chrefft yr Urdd, Ceredigion. Enillwyd 16 cyntaf, 10 ail ac 8 trydydd. Edrychwn ymlaen at y rownd genedlaethol!

Llongyfarchiadau mawr i Miss Fiona ar enedigaeth Elsi Mari. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn fel teulu o bedwar. Bu disgyblion blwyddyn 3 yn Llangrannog am dridiau yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau cyffrous yn cynnwys gwibgartio, marchogaeth ceffyl a cherdded i'r traeth i gael hufen iâ. Roedd pawb wedi joio mas draw.

Ar Ddiwrnod Tristan, gwisgodd pawb y lliw glas i'r ysgol am

mai dyna oedd ei hoff liw. Aeth blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i Langrannog i fwynhau gweithgareddau y byddai Tristan wedi mwynhau sef sgîo, gwyllt-greffft a gwibio ar wifren uchel. Diolch i Langrannog a Vincent Davies a'i Fab am noddi'r diwrnod. Codwyd £400 tuag at elusen Ambiwlans Awyr Cymru a gwasanaeth galaru CRUSE. Branwen, chwaer Tristan drefnodd y diwrnod, a chawsom ddiwrnod arbennig iawn i gofio ffrind a brawd arbennig iawn. Cyflwynodd Branwen sic o £200 i Delor James ar ran CRUSE, a sic o £200 i Aneurin Roberts ar ran Ambiwlans Awyr Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i holl redwyr yr ysgol a fu'n cystadlu yn ddiweddar yn Llangrannog ac yn Aberystwyth. Llwyddodd Rhydian, Rhun, Alana, Anna, Pip ac Albie i ddod yn y deg uchaf. Tipyn o gamp. Diolch i Gwmni Theatr Bychan am gynnal prosiect Amethyst gyda disgyblion hŷn yr ysgol. Mae'r prosiect yn ymdrin ag iechyd meddwl a hunan hyder plant. Diolch i Deri a Delyth Wyn.

Cafwyd gweithdai ysbrydoledig gan Aaron Phipps sy'n chwarae rygbi cadair olwyn i dîm Prydain Fawr. Ef hefyd oedd y dyn paraplegig cyntaf i gyrraedd copa mynydd Kilimanjaro. Roedd y plant wedi rhyfeddu ar yr hanesion difyr oedd ganddo i'w rhannu, a phob plentyn wedi ei swyno'n llwyr. Cofiwch, os ydych am lwyddo rhaid gosod targed, bod yn drefnus, holi am help a gweithio'n galed. Yn dilyn ymweliad Aaron Phipps, gosododd blwyddyn 5 a 6 yr her o ddringo mynydd uchaf Ceredigion, sef Pumlumon. Dafydd Morgan oedd yn eu tywys a chafwyd diwrnod bythgofiadwy wrth sefyll ar y copa a gweld Yr Wyddfa, Penrhyn Llŷn, Iwerddon, Mynyddoedd y Preseli, y Bannau Brycheiniog a Lloegr o'u cwrmpas. Dyma beth oedd gwers ddaeryddiaeth arbennig gyda map Cymru wedi ei osod allan o'u blaenau.

Cyflwynodd blwyddyn 6 wasanaeth Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd i weddill yr ysgol. Rhannwyd y neges gyda'n ffrindiau yn Ewrop a derbyniwyd ymatebion wrth ysgolion yn Latfia, Yr Eidal, Norwy a Slofenia.





Tîm pêl-droed -  
Bechgyn



Tîm pêl-droed -  
Merched



Enillwyr Celf yr Urdd



Branwen yn cyflwyno siec i Delor  
James ar ran CRUSE



Y cyfnod sylfaen yn nhŷ Gloyn  
Byw, Cwm Rheidol



Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn

Bu Caryl Parry Jones a Dafydd Du yn siarad â Chlwb Brecwast Ysgol y Dderi a Miss Sheila fel rhan o Sioe Frecwast BBC Radio Cymru 2. Cafwyd sgwrs ddifyr a dewisodd Miss Sheila 'Coffi Du' gan 'Gwibdaith Hen Frân' - ei ffefryn! Crads Mawr a Bach yw thema'r Cyfnod Sylfaen a chafwyd profiadau hudolus wrth ymweld â Thŷ Gloyn Byw yng Nghwm Rheidol. Roedd y plant wedi'u rhyfeddu'n llwyr ar y pili-palod ac wrth eu boddau yn arsylwi ar y lliwiau bendigedig.

Bu disgyblion blwyddyn 4 yng ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn am dridiau yn mwynhau canŵio, adeiladu rafft a rhwyfo. Manteisiodd y criw ar y lleoliad a mynd ar daith i'r Ysgwrn gan aros wrth Lyn Celyn i glywed hanes boddi Cwm Tryweryn. Galwodd y criw gyda disgyblion Ysgol O M Edwards am eu bod wedi bod yn gwneud gwaith ar y cyd dros Skype y flwyddyn cynt. Roedd pawb wedi cael amser gwych.

Llongyfarchiadau mawr i Dion

Teilo am ennill gwobr Seren Chwaraeon yr Ifanc, Radio Ceredigion. Mae Dion yn rhagori ym maes golffio ac wedi profi llwyddiant ysgubol. Da iawn ti.

Mynychodd criw o blant Dwrnamaint Tennis yn Aberystwyth yn ddiweddar fel rhan o fenter Ceredigion Actif. Braff oedd cael cefnogi'r digwyddiad newydd hwn ac roedd pawb wedi elwa o'r profiad yn fawr. Wimbledon amdani nesa! Daeth Sioe Buddug o gwmni 'Mewn cymeriad' i'r ysgol i ddysgu disgyblion blwyddyn 3 a 4 am frenhines y llwyth Celtaidd, Yr Icen. Roedd y sioe yn llawn hiwmor a ffeithiau - pa ffordd well i ddod â hanes yn fyw. Gwych.

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ddod i'r brig yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro eleni; Megan Joy Rose 1af pypedau blwyddyn 2 ac iau, Rosie Hussell 1af argraffu ar ffabrig blwyddyn 2 ac iau, Daniel Siôn Ebenezer 1af gwaith 3D blwyddyn

2 ac iau, Rhydian Quan 1af pypedau blwyddyn 5 a 6, Grŵp Alana, Ffion a Kaci 1af grŵp pypedau blwyddyn 5 a 6, Beca Elan Ebenezer 2il gwaith crochenwaith blwyddyn 5 a 6, Grŵp Paloma a Faith 2il crochenwaith grŵp blwyddyn 3 a 4, Grŵp Lola, Phoebe ac Erin 2il grŵp pypedau blwyddyn 3 a 4. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn y Senedd yn ystod yr Eisteddfod.

## Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau mawr i Bledwyn Holgate, Lluet, Derry Ormond am basio Gradd 3 ar y piano yn ddiweddar gyda chlod dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

## Croeso adref

Croeso adref i Mr Dilwyn Pugh, Bro'r Felin ar ôl iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais. Croeso adref hefyd i Mr Aled Frensh i Rydlandfair ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais. Brysiwch wella eich dau.

## Hamdden

Cyfarfu'r aelodau ar Fai 3ydd yn Ysgol y Dderi dan lywyddiaeth Gwen Lewis. Y gŵr gwadd oedd Mr Tim Newby, prif arddwr Stâd Llanerchaeron.

Treuliwyd orig hapus iawn yn ei gwmni pan fu'n sôn am hanes y gerddi hynafol a hanesyddol ac fel y maent wedi datblygu. Rhaid gwerthu'r cynnyrch er mwyn cynnal y gerddi. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog iddo gan Raymond Farrow am brynhawn mor ddiddorol,

hamddenol a hanesyddol trwy gyfrwng sleidiau.

Enillwyd y raffl gan Alan Baker, Janet Farrow, Tim Newby, Peter Cornelius, Mair Spate, Betty Lockyer, Maureen Morgans, Maisie Morgans, Sally Davies ac Ethel McLoughlin.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 7fed pan fyddwn yn cynnal ein Gwibdaith flynyddol. Fe ymwelir â Chapel y Carcharorion yn Henllan a'r Felin Wlân yn Drefach Felindre gyda chinio yn y Llew Coch yn Drefach Felindre.

## Merched y Wawr Y Dderi

Treuliwyd orig bleserus a diddorol iawn yn edmygu casgliad helaeth Jane Beck o flancedi Cymreig. Cawsom ganddi hanes sefydlu'r busnes yn Llwyn-y-groes dros ddegawd yn ôl a hen hanes ffatrioedd gwlan a fu yn y cyffiniau flynyddoedd yn ôl. Diolchwyd i'r perchennog am ei chroeso a'r hanes ac am ein gwerthfawrogiad o'r arddangosfa.

Ymlaen wedyn i Dregaron lle y cawsom de prynhawn bendigedig yn yr 'Hungry Goose' yn cynnwys dewis amrywiol o frechdanau, cacennau a threiffel hefyd. Rhoddwyd y Raffl gan Mair Morgan ac fe'i henillwyd gan Deborah Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi pan fydd rhaglen y tymor nesaf yn cael ei threfnu. Dewch â syniadau i'r cyfarfod ar Fehefin 19eg am 7.00y.h.



# Llanybydder

## Diolch

Dymuna Glenys Williams, Derwenlas ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, arian, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogr yn fawr iawn.

## Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eirwyn a Gwenda Davies, Llyscerdd a fydd yn dathlu Priodas Aur ar y 5ed o Orffennaf. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

## Cyngor Llanybydder

Rhoddwyd £500.00 tuag at Bwyllgor Pentref Llanybydder a rhoddwyd £500.00 tuag at Gymdeithas yr Hen Bobol, Llanybydder. Blin iawn gennym gofnodi bod Meinir Wyn Davies wedi ymddiswyddo o'n Cyngor oherwydd ei bod wedi symud tŷ. Pob dymuniad da iddi hi ond fe welwn ei heisiau yn fawr iawn. Diolch iddi am fod mor weithgar a pharod bob amser yn ein Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn cysylltu drwy lythyr â'r Heddlu i ofyn iddynt ddod i rai o'n cyfarfodydd misol. Derbyniwyd Les i Barc, Rhydeymerau ac mae'r Cynghorwyr eisiau ychydig o amser i edrych dros y Les cyn ei thrafod yn ein cyfarfod nesaf. Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol yn ein cyfarfod diwethaf. Yn ystod y flwyddyn nesaf, fe fydd Gary Evans yn parhau gyda'r gwaith o fod yn Gadeirydd a Bev Pold yn parhau i fod yn Is-gadeirydd.

## Carnifal

Mae'r wythnos garnifal yn dechrau ar y 23ain o Fehefin gyda chyngerdd ieuencid yr ardal yn neuadd yr ysgol am 6.30. Nos lun y 24ain fe fydd helfa drysor car yn dechrau o'r clwb rygbi am 6.00. Y pris yw £5.00 y car a bydd yr enillwyr yn cael £30.00. Yna, noson o fingo ar y 25ain yn y clwb rygbi am 8.00. Ar Nos Fercher y 26ain, fe fydd noson helfa drysor gerdded i ddechrau o Danygraig am 6.30. Fe fydd £30.00 i'r enillwyr. Ar Nos Wener y 28ain ceir "Quizfactor" yng Ngwesty'r Cross Hands am 7.30. Pedwar person fydd mewn tîm a'r wobr fydd £40.00. Ar Ddydd Sadwrn y 29ain, bydd diwrnod y carnifal a'r mabolgampau lawr yn y cae rygbi am 1.00 o'r gloch. Y Thema eleni yw Cartwnau. Fe fydd yr adloniant gyda'r hwyr yn y clwb rygbi gyda disgo'r plant yn cychwyn am 6.00 a disgo a karaoke gyda Ian i'r oedolion i ddilyn. Llywydd yr wythnos fydd Mr Patel, perchennog siop Nisa.

## Twrnamaint Pêl droed

Ar benwythnos Mai 18fed a 19eg, fe gynhaliwyd Twrnamaint Pêl droed Blynnyddol Ieuencid Llanybydder. Eleni eto, Cae Rygbi Llanybydder oedd y lleoliad, ac roedd y cae fel arfer mewn cyflwr arbennig. Er gwaethaf y glaw dydd Gwener, roedd y tywydd yn sych ac yn braf dros y ddau ddiwrnod. Ar ôl misoedd o baratoi, trefnu ac adeiladu, roedd popeth yn barod ac yn ei le. Am y tro cyntaf eleni, penderfynodd y pwyllgor ddefnyddio meddalwedd ar-lein i gofnodi'r canlyniadau, ac felly rhoi'r cyfleuster i unrhyw un weld y canlyniadau wrth iddynt ddigwydd. Dros y ddau ddiwrnod, roedd 73 o dimoedd wedi cofrestru yn y twrnamaint. Daeth rhai ohonynt o ardal Abertawe a hyd yn oed o gymoedd y De. Chwarae teg iddynt am gymryd rhan. Fel arfer roedd y gwirfoddolwyr yn gweithio'n galed, ac yn gwneud eu gwaith yn drylwyr, i sicrhau bod y twrnamaint yn rhedeg fel cloc. Ar y dydd Sadwrn, tro'r plant bach dan 6, dan 10 a'r rhai hŷn o dan 14 oedd hi, tra ar y dydd Sul tro'r dan 8, dan 12 a'r merched dan 14 oedd dangos eu doniau. Roedd y pêl droed yn arbennig gyda goliau gwych yn cael eu sgorio, ac felly yn adeiladu'r chwant am fwyd a diod. Roedd yr Adran Luniaeth fel arfer yn orlawn a'r bwyd yn flasus dros ben. Ar ôl nifer helaeth o gemau, daeth yr amser i'r gemau gael eu lleihau i'r gemau cyn derfynol a'r rhai terfynol. Y canlyniadau Dydd Sadwrn oedd:- Dan 10- Cyntaf, Llanbed; ail, Llanybydder. Dan 14- Cyntaf, Padarn Panthers; ail, Peniel. Dydd Sul: Dan 8 - Cyntaf Aberaeron; ail Llanybydder. Dan 12 - Cyntaf Llanilar; ail Llanbed. Dan 14 merched - Cyntaf Ffostrasol, yn aml ddewisiad o ferched Sir Aberteifi. Roedd yna dlysau prydferth dros ben i'r timoedd buddugol a llongyfarchiadau i'r holl dimoedd a gymerodd ran. Fe hoffai Pwyllgor Clwb Ieuencid Llanybydder ddiolch i'r noddwyr a'r holl wirfoddolwyr am eu help a'u gwasanaeth dros y penwythnos. Mae yna ormod i'w henwi. Ymlaen â'r clwb i 2020. Diolch i chi gyd.

## Diolch

Dymuna Myra, Nerys a'r teulu ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thad-cu annwyl iawn. Mawr yw ein diolch am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Brynmor. Bydd yr arian yn mynd tuag at y Nyrsys Cymunedol. Mae croeso i bawb fynd mewn â'u rhoddion i siop Gwilym Price.

## Swydd Newydd

Pob lwc i Gareth Davies, Llys Enwyn yn ei swydd newydd fel 'Swyddog Cynllunio a Datblygu Digidol' gyda chwmni Atebol. Llongyfarchiadau calonnog i ti.



Aelodau Lleisiau'r Werin yn cyflwyno sic o £900 i Manon Gravelle, nyrs yn Arch Noa, Ysbyty Plant Cymru, Caerdydd. Codwyd y swm anrhydeddus yma yn ystod ein cyngerdd Nadolig blynnyddol yn eglwys Sant Pedr, Llanybydder.

# Maesycrugiau



## Priodi

Llongyfarchiadau i Iona Jones a Geraint Lloyd-Davies, Lluest, Maesycrugiau ar eu priodas ar y 4ydd o Fai 2019. Pob hapusrwydd ar gyfer y dyfodol.

**LYN JONES**  
"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
  - Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
  - Wedi yswirio'n llawn

**01570 481029**  
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



# Cymdeithas Edward Llwyd



Blodau Craff y Geifr

Mae'n fis Mai a gŵyl banc y Pasg wedi hen fynd. Mae'r coed ceirios ar hyd y stryd tu allan i'r tŷ wedi rhoi sioe arbennig i ni eleni. Erbyn hyn mae'r coed afalau cynhenid wnes i blannu tair blynedd yn ôl yn prysur flodeuo. Mae'r gwanwyn yn symud ymlaen â chlychau'r gog a garlleg yr arth yn gosod carpedi o liw o dan y coed. Mae'r lliwiau yn newid trwy'r amser a braf iawn yw hi i fod allan yn ein cefn gwlad. Ychwanegwch gwmni da a'r iaith Gymraeg a dyna chi rysâit i greu diwrnod llawn mwynhad. Fel mae'n digwydd, mae cyfle am hyn pob dydd Sadwrn. Bydd ein teithiau o ganol Mehefin tan ganol mis Gorffennaf yn ardaloedd Machynlleth, Llangadog, Llanrhidian, Llanbedr Pont Steffan a Llandeilo. Ymunwch â ni ar un ohonyn nhw i chi gael gweld mwy o'n gwlad hyfryd. I ddarllen adroddiadau llawn am ein teithiau ewch at <http://www.gydangilydd.cymru> Mae manylion llawn o'n rhaglen ar ein gwefan <http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-de/>

## Cwrtnewydd

### Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Peter Griffiths, Fronddu ben-blwydd arbennig yn 65 oed ar ddiwedd mis Mai. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

### Dathlu

Llongyfarchiadau mawr i Ela Mablen Griffiths-Jones, 2 Fronddu sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Aberaeron, ar ei llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro ar ddiwedd mis

Mai. Cafodd 1af yn yr Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4; 2il yn y Llefaru Bl. 3 a 4 a hefyd 2il yn y Ddeuawd Bl. 6 ac Iau gyda'i ffrind Eos Dafydd. Da iawn ti Ela.

### Croeso adref

Braf yw gweld Mrs Nanna Jones, Garth adref ar ôl iddi dreulio cyfnod o adref.

Ddydd Sadwrn 29 Mehefin eleni ar gaeau chwarae Ysgol Uwchradd Aberteifi am 11 y bore pryd y gorsedd yr Archdderwydd newydd Y Prifardd Myrddin ap Dafydd. Bydd yr achlysur pwysig hwn yn rhoi cyfle i estyn gwahoddiad i rai o ddalgylch yr Eisteddfod ddod at ei gilydd er mwyn dathlu dyfodiad yr Ŵyl i Geredigion. Yn ystod y bore bydd nifer o weithgareddau gan gynnwys gorymdaith fawr trwy'r dref.

Heb gymorth a chefnogaeth amhrisiadwy byddin o wirfoddolwyr, ni fyddai llwyfannu'r Eisteddfod Genedlaethol yn bosibl, ac yn yr un modd mae angen cymorth i

### Apêl am Stiwardiaid ar gyfer y Cyhoeddi

Mae'r bwrlwm a'r cyffro ynghlwm â'r paratodau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2020 yn amlwg ers misoedd ar draws Ceredigion ac mae cyfle i ddathlu carreg filltir bellach ymhen rhai wythnosau gyda chyfnod swyddogol y Cyhoeddi. Ynghyd â'r brif seremoni caiff amrywiaeth o weithgareddau eu cynnal dros gyfnod o bythefnos gan gynnwys gŵyl gerddoriaeth newydd a chymnfa swyddogol y cyhoeddi - gwyliwch allan am weithgareddau yn eich ardal chi.

Cynhelir Seremoni'r Cyhoeddi ar

# Llyfrau Llafar Cymru



Swyddogion Papur Bro Clonc yn cyflwyno rhodd i Llyfrau Llafar Cymru

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n methu darllen oherwydd nam ar y golwg? Wel mae'n braf gallu cyhoeddi bod llyfrau Cymraeg a chyhoeddiadau eraill ar gael ar gwyno ddisg am ddim i'r rhai sydd eu hangen nhw. Mae gan Llyfrau Llafar Cymru wirfoddolwyr sy'n darllen y cyhoeddiadau tra'n cael eu recordio. Wedyn postir y cryno ddisgiau i'r cartrefi. Mae ganddynt lyfrau o bob math ar gwyno ddisg yn cynnwys nofelau, straeon byrion, cofiannau, barddoniaeth, yn ogystal â phregethau a darlenniadau o'r Beibl. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n rhannol ddall ac anfonir 4000 o deitlau allan bob blwyddyn. Mae Papur Bro Clonc yn cael ei recordio hefyd bob mis, a sawl person yn yr ardal hon yn manteisio ar hynny er mwyn gwerthfawrogi cynnwys y papur bro er eu bod yn methu darllen. Daw'r gwasanaeth hwn a chysur i lawer sydd wedi arfer darllen. Mae'n gweithio'n hawdd. Gellir dewis o gatalog o deitlau. Anfonir a dychwelir cryno ddisgiau yn rhad ac am ddim mewn waledi drwy'r post a gall gwrandawyr awgrymu teitlau i'w recordio hefyd. Yn ddiweddar, cyflwynodd swyddogion Papur Bro Clonc rodd o £500.00 tuag at Llyfrau Llafar Cymru. Daeth Rhian Evans, un o sylfaenwyr y gwasanaeth yn 1979 i annerch mynychwyr cyfarfod blynyddol Papur Bro Clonc. Roedd y cyfraniad hwn yn gydnabyddiaeth o'r ffaith bod y gymdeithas yn recordio'r papur bro ar gyfer pobl yr ardal. Os gwyddoch am rywun a fyddai'n dymuno derbyn y gwasanaeth gwerthfawr hwn ac i gael rhagor o wybodaeth am y cynllun a chopi o'r catalog o 2000 o deitlau, cysylltwch â Llyfrau Llafar Cymru, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3HB. Ffôn: 01267 238225.

## Eisteddfod Ceredigion 2020

weithredu trefniadau'r Cyhoeddi yn hwylus a diogel. Mae apêl ar y gweill am dîm o wirfoddolwyr lleol i weithredu fel stiwardiaid yn ystod y bore (am gyfnodau rhwng 08:00 ac 12:30) ac i gynorthwyo gyda'r paratodau e.e. gosod cadeiriau, baneri, arwyddion a chlirio wedi'r seremoni ei hun. Rhaid bod yn 18 oed neu drosodd i wirfoddoli.

Os hoffech chi wirfoddoli yn y Cyhoeddi, gallwch gofrestru ar ein gwefan <http://eisteddfod.cymru/eisteddfod-2020/gwirfoddoli-y-y-cyhoeddi> neu gysylltu â'r Swyddfa ar 0845 40 90 400 neu e bostio [alwyn@eisteddfod.org](mailto:alwyn@eisteddfod.org). uk am ffurflen bapur. Dyddiad cau

ar gyfer cofrestru i gynorthwyo yn y Cyhoeddi yw 14 Mehefin. Byddwn mewn cyswllt ymlaen llaw i gadarnhau swyddogaethau ar y dydd.

Cynhelir Cymnfa Ganu'r Cyhoeddi nos Iau 27 Mehefin 7.00 yh yng Nghapel Soar, Llanbed. Cyd-arweinyddion fydd Margaret Daniel a Delyth Hopkins Evans gyda Sarah-Jane Absalom yn organydd. Bydd eitemau arbennig yn ogystal gan Kees Huysmans yn ystod y canu cynulleidfaoel. Mynediad trwy raglen yn £5 sydd ar gael yn eich siopau lleol. Derbynnir cyfraniadau ewyllys da ar ddiwedd y noson tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.



# Pwy oedden nhw?



Dyma hen lun sydd gyda ni yn ein teulu. Cafodd ei dynnu o gwmpas 1910au gan y ffotograffydd, 'Harold Squibbs, Cardigan'. Does dim syniad gyda ni pwy sydd yn y llun - tybed oes rhywun yn gallu helpu? Efallai bod rhywun yn adnabod y tŷ? Os oes gennych wybodaeth, cysylltwch â Gareth Davies, 01570 480 683, [gareth94@hotmail.co.uk](mailto:gareth94@hotmail.co.uk)

# Pêl-droed Llambed



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 10 Llambed am ennill twrnamaint Llanybydder yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau mawr i Casi Gregson a enillodd chwaraewr y twrnamaint dan 12 yn nhwrnamaint Aberaeron a chwaraewraig dan 14 merched yn nhwrnamaint Llanybydder ym mis Mai.



Jess Jones, Niah Bouvet, Elen Jones, Sioned Jones a Robyn Tichehurst o Dîm Merched Llambed a ddewiswyd i dîm y gynghrair yn Nhwrnamaint Aberystwyth.



Llongyfarchiadau mawr i Llŷr Davies, Riley Lovell a Rhun Davies o Dîm Dan 12 Llambed ar gael eu dewis i dîm y gynghrair yn y twrnamaint ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth.

## SiaraDwyR NewYdd!

COLOFN Y DYSCWYR gan Gwyneth Davies

### Taclo'r Treigladau

Mae 10 treigladau ar goll yn y darn canlynol. Rhowch gylch o gwmpas y camgymeriadau a rhowch y treigladau cywir i mewn:  
Fy enw i yw Helen a dw i'n byw yn Caerfyrddin. Dw i'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol. John yw enw fy tad i a Cerian yw enw fy mam i. Mae fy rhieni yn byw yn Pontgarreg. Ddoe es i i Llundain i siopa. Daeth Siân fy cyfnither gyda fi. Mae hi'n byw yn Bangor ond yn dod o Tregaron yn wreiddiol. Enw ei cath hi yw Blodwen. Hari yw enw ei pysgodyn aur hi.

### Geirfa

treigladau - mutations  
camgymeriadau- mistakes  
rhieni - parents  
cyfnither- female cousin  
cath – cat  
pysgodyn aur – goldfish

### Y Cywiriadau

Yng Nghaerfyrddin, o Gaerdydd, fy nhad, ym Mhontgarreg, i Llundain, fy nghyfnither, ym Mangor, o Dregearon, ei chath hi, ei physgodyn aur hi.

### Dyma ddarn o waith gan Barbara Horsfall Turner o Langeitho. Yr Ardal Leol

Yn 1988 penderfynais i symud i Geredigion. Pam? Wel beth oedd yn bwysig i fi oedd gadael Caint achos mae Caint yn le prysur iawn. Bryd hynny, ro'n nhw'n adeiladu Twnnel y Sianel ac roedd llawer o bobl oedd yn gweithio yn Llundain wedi symud i'r ardal. Hefyd, roedd fy mhiant wedi tyfu ac felly roedd yn adeg ddelfrydol i symud.

Mae fy mrawd yn byw yma a hefyd teulu ei wraig. Felly ro'n i'n cael nifer o wyliau yng Nghymru a ro'n i'n gwybod bod Ceredigion yn wledig fel Caint. Ro'n i'n arfer byw yn 'Weald of Kent' gyda llawer o ddefaid, pentrefi a threfi bychan. Pan symudais i fyw yma, ro'n i'n lwcus achos ro'n i'n gallu gweithio yma fel athrawes Wyddoniaeth ac yna athrawes anghenion arbennig yn enwedig dyslecsia. Erbyn hyn, rwy'n dysgu nifer o blant ar ôl ysgol a dw i hefyd yn gwirfoddoli yn ysgol y pentre drwy fynd mewn i ddysgu sillafu unwaith bob wythnos

A dweud y gwir, mae Llangeitho, ble rwy i'n byw nawr, a Frittenden, ble ro'n i'n arfer byw, yn debyg iawn. Maen nhw bron yr un maint achos yn ôl y we, poblogaeth Frittenden yw 888 a phoblogaeth Llangeitho yw 874. Dim ond 4.8Km yw Frittenden o bentref bach Cranbrook. Y pentref sydd agosaf i Langeitho yw Tregaron a dim ond 6km sydd rhyngddynt nhw. Mae Cranbrook a Thregaron yn debyg iawn gydag ychydig o siopau, eglwys eitha mawr, ysgol Gynradd, ysgol Uwchradd, dynion tân yn gwirfoddoli a llawer o dafarndai! Mae yna neuadd Goffa, cofeb rhyfel a thafarn yn Llangeitho a Frittenden ac yn yr haf mae 'na sioe yn Llangeitho a Fête yn Frittenden. Hefyd, does dim swyddfa bost yn y ddau le nawr ond roedd yn arfer bod. Bellach, mae'r ddau bentref yn cael fan bob wythnos – mae Frittenden yn cael fan ddwywaith yr wythnos a Llangeitho deirgwaith yr wythnos a hynny am awr bob tro!



Mae'r arferion ffermio yn dipyn gwahanol serch hynny. Yn Frittenden, mae gerddi hopys a pherllannau gyda defaid yn pori yno. Yn Llangeitho, yr hyn sydd fwyaf cyffredin ar y ffermydd yw gweld defaid ar y brynau. Hefyd mae'r tir yn hollol wahanol gan fod Frittenden yng Nghaint yn eitha fflat gydag afon yn llifo'n araf iawn drwy'r lle tra bod Llangeitho mewn cwm a'r afon Aeron yn llifo'n eitha cyflym.

Ond beth am y bobl? Wel a dweud y gwir, maen nhw debyg iawn hefyd. Yr un yw'r pynciau trafod - cwyno am y tywydd, siarad am bethau lleol, cwyno am y tywydd, siarad am sefyllfa ffermio, cwyno am y tywydd, siarad am eu plant, cwyno am y tywydd, siarad am brisiau pethau, cwyno am y tywydd unwaith eto a.y.y.b !

Ond mae Llangeitho mewn ystaf amser (time warp) oherwydd mae'r lle bron yr un peth ag yr oedd e bum deg mlynedd yn ôl! Er bod nifer o bethau yn debyg rhwng Caint a Llangeitho, yr unig beth sy'n hollol wahanol yw'r iaith. Felly, y peth pwysicaf i mi ar ôl symud i Langeitho, oedd dysgu siarad Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn bwysig i lawer o bobl yn mhentre Llangeitho a llawer ohonyn nhw yn dweud wrtha i yn gyson eu bod nhw'n falch iawn mod i'n dysgu Cymraeg.

### Beth am ddyblu eich aelodaeth o Glwb Clonc?

Mae'n amser i ymuno â Chlwb Clonc unwaith eto. Y ffordd fwyaf cyfleus o wneud hynny yw talu drwy archeb banc. Mae ffurflen ar dudalen 14. Diolch yn fawr i bawb sy'n cefnogi bob blwyddyn.

Dim on £5 yw aelodaeth. Beth am brynu gwerth £10 neu £20? Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Rhoddir **bag siopa poced newydd Clonc** i bawb sy'n ymaelodi o'r newydd, ac i aelodau blyneddol sy'n cynyddu aelodaeth a thalu drwy archeb banc.





C.F.F.I Ceredigion

Mae Rali'r Sir ar y gorwel ac aelodau'r mudiad wrthi'n ddiwyd yn paentio, yn paratoi, yn ymarfer ac yn barnu stoc. Estynnir gwahoddiad i chi i'r diwrnod arbennig hwn ar Fferm Ynysforgan, Lledrod ar 1 Mehefin 2019, lle bydd yna ddawns i ddilyn gyda'r band Gwilym a Dafydd Pantrod. Cofiwch hefyd am Gymanfa'r Rali nos Sul 2 Mehefin yng Nghapel Rhydlwyd, Lledrod.

Diwrnod Maes C.F.F.I Cymru

Cynhaliwyd Diwrnod Maes C.F.F.I Cymru yn Sir Benfro eleni, a llongyfarchiadau i'r rhai a fu'n cystadlu yn y cystadlaethau canlynol gan alluogi Ceredigion i ddod yn 4ydd ar derfyn diwrnod o gystadlu: Fferm Ffactor – Bedwyr Siencyn a Wiliam Jones, Talybont – 1af. Stocmon Iau – y tîm yn 2il ac Elin Davies, Llanwenog yn 3ydd yn unigol. Stocmon Hŷn – y tîm yn 3ydd a Dyfrig Williams, Llangwryfon yn 2il yn unigol. Arddangosfa Ciwb – Lledrod yn 2il. Ffensio Iau – Penparc yn 3ydd

Cows on Tour

Braf oedd croesawu criw o ffermwyr ifanc o Gymru i Aberystwyth ddydd Mercher 15 Mai yn rhan o'r ymgyrch 'Cows on Tour'. Bwriad y digwyddiad oedd

codi ymwybyddiaeth plant ysgol am fyd amaeth, gan godi arian at RABI a Sefydliad DPJ. Diolch i aelodau a swyddogion C.F.F.I Ceredigion a fu'n cynorthwyo'r digwyddiad a oedd yn llawn stondinau a gweithgareddau i ddathlu'r diwydiant arbennig hwn.

Diwrnod Rali C.F.F.I Sir Gâr

Daeth y nosweithiau hir o ymarfer a pharatoi ar gyfer y Rali i ben i aelodau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr a chafwyd diwrnod arbennig o gystadlu brwd ar Faes y Sioe, Nantyci ar Ddydd Sadwrn, 11eg o Fai 2019. Daeth cannoedd o bobl i gefnogi'r aelodau a chael gweld eu gwaith safonol iawn yng nghystadlaethau megis canu, coginio, paratoi llo a chneifio, ac yn sicr roedd gwaith y beirniaid yn sialens.

Ar ôl yr holl gystadlu a'r beirniadu, fe ddaeth yr amser i anrhydeddu Llysgennad a Llys genhades newydd y Ffermwyr Ifanc yn y Sir. Llys genhades newydd y Sir yw Angharad Thomas o Glwb Dyffryn Tywi gyda Carwyn Jones o Glwb Pen-y-bont yn Llysgennad y Sir. Dirprwyon i'r ddau eleni yw Rhian Hughes, C.F.F.I Llanymddyfri, Mare Evans, C.F.F.I Pen-y-bont, Rhiannon John, C.F.F.I Llandybie a Daniel Irving, C.F.F.I Capel Iwan. Cafodd Aelod Iau'r Flwyddyn, Cadi Fflur Evans, C.F.F.I Pen-y-bont ac Aelod Hŷn y Sir, Ffion Medi Rees,

C.F.F.I Llanfynydd eu hanrhydeddu hefyd. Stocmon Iau'r Flwyddyn oedd Rosie Davies, C.F.F.I Llanon a Stocmon Hŷn y Flwyddyn oedd Anwen Jones, C.F.F.I Llanllwni. Yn ennill buwch Goffa Aled Howells am brif Stocmon dros y flwyddyn oedd Ifan Williams o Glwb Llangadog. Yn olaf, cyflwynwyd llu o wobrau i'r aelodau ddaeth i'r brig yn ystod y dydd a llongyfarchiadau i bob un ohonynt ar eu llwyddiant a phob lwc i'r aelodau bydd yn cynrychioli'r Sir ar lefel Cymru yn y Sioe Frenhinol ac ar lefel Cenedlaethol.

Ni fyddai'r diwrnod wedi bod yn bosib heb gydweithrediad staff Maes y Sioe a diolch i stiwardiaid C.F.F.I Llanymddyfri am eu gwaith diflino cyn ac ar ddiwrnod y Rali, a hefyd i C.F.F.I Llanfynydd am stiwardio'r ddawns. Mae'n rhaid diolch hefyd i C.F.F.I San Ishmael am stiwardio'r nosweithiau Barnu Stoc. Diolch iddynt hwy a diolch i'r ffermwyr wnaeth ddarparu lleoliadau a stoc i gynnal y nosweithiau barnu stoc.

Mae'r Mudiad yn ddibynnol iawn ar ewyllys da pobl ac mae hyn yn sicr yn wir am y noddwyr sydd o hyd yn cefnogi'r Mudiad yn Sir Gâr. Diolch yn fawr i Fwydydd Castell Howell am fod yn brif noddwr y Rali unwaith eto eleni, ni fyddai'r Rali wedi bod yn bosib heb eich Cymorth ariannol.

Diolch i'r holl swyddogion,

Llysgenhaden y Sir ac i stiwardiaid y gât ac i bawb arall wnaeth helpu mewn unrhyw fodd. Roedd y Rali'n ddiwrnod llwyddiannus oherwydd eu gwaith caled a chafwyd noson hwylus iawn i ddathlu yn y Ddawns ar Fferm Brynawelon, Llanfynydd gyda Baldande fel adloniant. Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Ian Thomas am fodloni i gael y ddawns yno ac am baratoi'r sied.

Llongyfarchiadau i C.F.F.I Llanymddyfri am ennill yr adran Iau ac i C.F.F.I Llanllwni am ennill yr Adran Hŷn.



Anwen Jones – Stocman Hŷn y Flwyddyn

CLONC CLWB CLONC

Os na wnaethoch gyflwynu archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn ated llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanfynydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â sicr neu arian parod mae croeso i chi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn i mewn i'r ffurflen hon, er mwyn parhau CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST:

RHIF FFÔN:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i Clonc gyhoeddi'ch enw ac enw'ch pentref petaech yn emill gwobr.

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chi / to your bank]

Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code:

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay

£Nat West, Llundud 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orllofnasaf 2019 1st July 2019

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orllofnasaf 1af  
Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybedd pellach gramyl ddiwy llybry / until you receive further notices from us in writing

Enw'r cyfrif i'w dddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no.:

Llofnud / Signature:





**Enw:**David Priddey

**Oed:** 19

**Pentref:** Rhydcymerau

**Gwaith:** Saer Coed

**Teulu:** Dad, Mam, a'r ddau dripled arall - John a Kerry

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**

Mynd bob blwyddyn i'r 'Dorset Steam Fair' yn y garafán.

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**

Simpsons

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**

Trin pawb fel dw i am gael fy nhrin gan eraill

**Y CD cyntaf a brynast di erioed?**

Albwm Party Animal

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**

Auctioneer

**Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?**

Cael carden Sant Ffolant wrth y bois yn y gwaith

**Beth yw dy lysenw?**

Dai neu Davey Bach

**Pwy yw dy arwr?**

Alun Dolydd, Llanybydder

**Beth yw dy arbenigedd?**

Y gallu i wneud pobol i chwerthin

**Pa mor wyrdd wyt ti?**

Rwy'n trial fy ngore

**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**

Cymraeg

**Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?**

Dim black box yn y car!!

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?**

Dau wynebog a hunanol

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**

Car newydd



**Beth sy'n codi ofn arnat?**

Nadroedd

**Pryd llefaist ti ddiwethaf?**

Pan werthes y Moped Bach.

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**

Rwy'n chwydu bob bore Sul

**Pryd est ti'n grac ddiwethaf?**

Rwy'n mynd yn grac bob tro mae Kerry yn mynd â fy nhwls i a ddim yn rhoi nhw nôl

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?**

Ennill Aur yn Skill Build Cymru

**Ac yn bersonol?**

Pasio'r Test gyrru car cyn fy chwaer

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?**

Bwyta'n iach a dawnsio digon ar nos Sadwrn

**Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?**

Sticka ati!!

**Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.**

Passo test Moped !!!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**

Golygus, caredig a gweithgar

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**

Vauxhall Corsa SRI gwyn

**Beth yw dy hoff air?**

Poni

**Beth yw dy hoff wisg?**

Crys pink a Jeans tywyll

**A'th hoff adeilad?**

Tafarn

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**

Blonden smart

**Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?**

Indian

**Beth yw dy ddiod arferol?**

Te

**Beth wyt ti'n ei ddarllen?**

Agri Trader

**Beth yw dy hoff arogl?**

Cacs ffres

**Sut wyt ti'n ymlacio?**

Gwyllo Lord of The Rings

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**

www.ffx.co.uk

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?**

Lot o ferched

**Hoff gân ar dy ipod?**

Sain berchen un

**Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?**

Festival ar Amazon Prime

**Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?**

Bod yn dalach.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**

Lord of the Rings Boxset

**Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?**

Tools

**Y gwyliau gorau?**

Dal i aros

**Pa ddwy wlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?**

Awstralia , America

**Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?**

Prynu tŷ, gwneud yr iron man a theithio'r byd.

**Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?**

Dawnsio a Chanu 'I'm a Barbie Girl' pan yn ifanc... trwy'r amser

**Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?**

Chwarae drygioni ar y bois yn y gwaith

**Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?**

Mousturiso

**Ble fyddi di mewn deng mlynedd?**

Site Manager





Trefnwyr Ras Sarn Helen dros 40 mlynedd - Lyn Rees gydag Eileen, Wish Gdula gyda Connie, Nigel Davies a Carwyn Davies.

Ar y 19eg o Fai cynhaliwyd ras hynaf Clwb Sarn Helen am y 40fed gwaith, ras aml dirwedd heriol dros ryw 16 milltir sy'n cynnwys tua 3000 troedfedd o ddringo - creadigaeth y bonheddwr Wish Gdula. Nigel a Lorraine Davies oedd yn trefnu'r ras dros y clwb eleni a chafwyd dathliad teilwng mewn tywydd ffafriol wrth i 83 o redwyr gychwyn a gorffen y ras, ymhlith y niferoedd uchaf yn hanes y ras. Lee Shannon o glwb Rhedwyr Sir Benfro oedd y dyn cyntaf i orffen (1 awr 48 munud a 50 eiliad) a Nerys Jones o glwb TROTS San Clêr oedd y fenyw gyntaf (2.08.06.) Un o gyn-enillwyr y ras, y profiadol Glyn Price oedd rhedwr cyflymaf Sarn Helen (yn 6ed mewn 1.56.43) ond yn nosbarth y dynion dros 50 oed bu'n rhaid iddo ildio i'w wrthwynebydd cyson, Kevin Griffith o glwb TROTS a orffennodd 10 eiliad brin o'i flaen. Yr unig aelod arall o'r clwb i orffen dan ddwy awr oedd Ken Caulkett (1.59.36) yntau'n gorffen yn 8fed ar ôl dechrau'n egniol iawn. Aelodau eraill i ennill gwobrau oedd Dan Hooper (10fed yn y ras ac yn ail dros 40 mewn 2.5.51), Nigel Davies (3ydd dros 40 mewn 2.8.48) a Murray Kisbee (yn ail dros 60 oed mewn 2.36.02) ymhlith y dynion a Caryl Davies (ail fenyw yn y dosbarth agored mewn 2.15.35), Eleri Rivers (ail dros 45 mewn 2.21.59), Delyth Crimes (3edd dros 45 mewn 2.36.00), Heather Hughes (ail dros 35 mewn 2.44.04), Siân Roberts Jones (3edd dros 35 mewn 2.45.24) ac Elisha Jones (yn 3edd yn nosbarth agored y menywod mewn 3.11.48.) Eleni eto yr oedd ras hwyl 9 milltir (Alex Lewis ac Elizabeth Tremlett oedd y buddugwyr) a hefyd ras ieuenctid milltir a hanner - Dafydd Lloyd (10 munud 49 eiliad) Rhys Williams (11.44) a Jack Caulkett (12.56) yn gorffen yn 1af, ail a 3ydd dros y clwb. Eva Davies (14.08) oedd yn 1af o'r merched oedran cynradd a daeth Tudur Lloyd (13.51) yn ail ymhlith y bechgyn cynradd, y ddau'n aelodau o'r clwb.

Yr oedd dwy ras arall mis Mai sy'n llawn haeddu'r ansoddair 'heriol.' Ar y 4ydd cynhaliwyd hanner marathon y Barcud Coch ym Mhonterwyd. Aeth 5 o redwyr y clwb yno a Glyn Price oedd y cyntaf ohonynt i orffen hon hefyd gan ddod yn 12fed mewn 1 awr 44 munud a 46 eiliad ac yn ail o'r dynion rhwng 50 a 55 oed. Rhyw 3 munud yn unig y tu ôl iddo daeth Jessica Bruce yn 1af ymhlith y menywod gan brofi ei gallu dros y cyrsiau llwybr mwyaf anodd. Y canlyniadau eraill oedd: Kevin Hughes (1.52.21), Michael Taylor (2.12.42) ac Andrew Edgell (2.19.57.) Yna ar yr 11eg aeth dau aelod i redeg ras 11 milltir 'Y Bwystfil Bach' yn y Preselau ac wrth gwrs yr oedd Glyn Price yn un ohonynt, y tro hwn yn dod yn 5ed (ac yn ail yn ei ddosbarth oedran) mewn 83 munud a 25 eiliad, ychydig o flaen Meic Davies (9fed mewn 92.29.) Rhwng y ddwy ras yma ar yr 8fed o Fai cynhaliwyd rasys traws gwlad ar lethrau stad yr Hafod ger Pont-rhyd-y-groes ac yno i gynrychioli'r clwb yr oedd Michael Taylor (51 munud 22 eiliad), Marc Davies (60.53), Rebecca Doswell (72.07) a Jane Holmes (72.07) yn y ras 10 cilometr a Rhys Williams ac Efa Davies yn ennill eu dosbarth yn y ras ieuenctid a Nia Williams yn ail yn ei dosbarth hi. Ar dir tipyn mwy gwastad yr oedd y mis diwethaf yn nodedig am ddwy ras marathon - un yn Llundain ar y 28ain o Ebrill a'r llall yng Nghasnewydd ar y 5ed o Fai. Yr oedd Nigel Davies yn rhedeg ymhlith dros ddeugain mil o redwyr yn Llundain ac o ganlyniad nid oedd modd cadw at y llinell las ar y tarmac sy'n dynodi'r cwrs cywir yn y ras honno a dywed fod ei oriawr loeren yn dangos iddo redeg 27 yn hytrach na 26.2 milltir y marathon. Er iddo orffen mewn amser ardderchog (3 awr 8 munud a 2 eiliad) yr oedd ganddo le i ddyheu am gwrs llai poblog. Llongyfarchiadau hefyd i Kevin Jones (4.6.49), Jenny Caulkett (4.44.10) a Pamela Carter (4.45.6) ar eu hymdrechion yn Llundain.

Yng Nghasnewydd yr oedd y cwrs yn wir yn llai poblog (tua 2000 o redwyr) a daeth Ken Caulkett o few 10 eiliad i orffen dan 3 awr gan ddod yn 88fed (ac yn 25ain yn ei ddosbarth oedran.) Ond daeth y cwrs cyflym hwn â record bersonol i ddau o'i gyd-aelodau - George Eadon (3.5.50) a Liz Pugh (4.37.49)



Eric, Carwyn, Llŷr, Owen a Dorian yng Nglyn-Nedd

ac yn 38ain yn ei dosbarth oedran yn ei hail farathon yn unig, ychydig o flaen Nicola Davies (4.49.0.) Yr oedd Caryl Wyn Davies hefyd yn brysur ar y 5ed o Fai yn hanner marathon Keswick yn Ardal y Llynnoedd lle daeth hi'n 10fed fenyw mewn 98 munud a 10 eiliad. Yn rhedeg yr un pellter yng Nghaer ar y 19eg o Fai cyflawnodd Steffan Thomas y dasg mewn 1 awr 32 munud a 44 eiliad ynghyd â Nicola Williams (1.46.07 - record bersonol am y pellter iddi hi.)

Er bod Ras y Maer yng Nghaerfyrddin a Ras Dyffryn Cledlyn yn Nrefach bellach yn cyd-ddigwydd ar ddydd gŵyl banc Calan Mai yr oedd nifer dda o blant ac oedolion wedi dod ynghyd i gefnogi ysgol Dyffryn Cledlyn. Rhedwyr Sarn Helen oedd 9 o'r deg cyntaf i orffen ras 5 milltir yr oedolion ac un ohonynt, Ken Caulkett oedd yr enillydd (30 munud 5 eiliad) a Dafydd Lloyd (enillydd y dosbarth dan 15 oed mewn 32.14) oedd yn 3ydd. Rhwng y ddau yn yr ail safle yr oedd yr athletwraig nerthol Sarah Louise Cumber o glwb Halifax, enillydd ras y menywod mewn 31.30. Daeth nifer o wobrwyr eraill i redwyr Sarn Helen - Mark Rivers (32.33) Nigel Davies (33.14) a Kevin Hughes (33.31) yn nosbarth y dynion dros 40; Meic Davies (32.20), Glyn Price (34.24) a Richard Marks (36.46) yn nosbarth y dynion dros 50; Eleri Rivers (37.57) Dawn Kenwright (41.00) a Delyth Crimes (41.14) yn nosbarth y menywod dros 45 a Siân Roberts Jones (40.00) a Heather Hughes (42.50) yn ail a 3ydd dros 35. Yn ogystal yr oedd pedair ras ieuenctid a 138 yn cystadlu ynddynt. Leighton Davies (Carreg Hirfaen) a Manon Gruffudd (Dyffryn Cledlyn) oedd y bachgen a'r ferch ddaeth i'r brig yn y ras cyfnod sylfaen, Owen Jac Jones (Dyffryn Cledlyn) ac Efa Davies (Sarn Helen) yn ras blwyddyn 3/4 a Cai Allan (Caerfyrddin) a Mali Evans (Talgarreg) yn ras blwyddyn 5/6. Yn y ras dan 16 oed, Rhys Williams a Violet Caulkett, y ddau o glwb Sarn Helen oedd yn fuddugol.

Fel ras Dyffryn Cledlyn y mae ras heol 5 cilometr Tallyllychau yn rhan o'r gyfres o rasys a drefnir yn flynyddol gan y clwb (a David Thomas yn benodol.) Ar nos Wener y 24ain o Fai yr oedd 41 o aelodau'r clwb ymhlith y 124 ddaeth i gystadlu. Rob Davies (16 munud 51 eiliad) o glwb Dyffryn Aman oedd y cyflymaf o amgylch y llychau eleni a Sioned Howells (19.15) o'r un clwb oedd y fenyw gyntaf. Seren Sarn Helen ar y noson oedd Dafydd Lloyd (18.35) yntau'n 15 oed ac yn cipio'r wobwr dan 18 oed trwy orffen yn 6ed yn y ras. Yn 3ydd yn yr un dosbarth dangoswyd addewid hefyd gan ei gyd-aelod Daniel Jones (19.29.) Yn nosbarth y dynion dros 40 daeth Mark Rivers (19.09) yn 1af a Carwyn Davies (19.52) yn 3ydd. Ymhlith y menywod dros 45 daeth Eleri Rivers (22.36) yn 1af a Delyth Crimes (23.40) yn ail. Yn nosbarth y dynion dros 60 daeth Richard Marks (21.46) yn ail y tu ôl i'r pencampwr Alan Davies o Lanelli. Yn y ras ieuenctid dros filltir gwnaeth dau o redwyr y clwb, Tudur Jones (7 munud) ac Eva Davies (7.24) yn ardderchog i orffen yn 4ydd ac yn 7fed allan o 86 o redwyr. Perfformiad arall i'w nodi yn y cyfnod hwn oedd canlyniad George Eadon yn Llanelwedd wrth iddo ddod yn 10fed yn ei ddosbarth yn yr Ŵyl Redeg Draws Gwlad ar y 19eg o Fai yng nghyffiniau Maes y Sioe Frenhinol.

Bu tipyn o adfywiad yn adran feicio'r clwb eleni a bu rhai o'r cystadleuwyr cyson yn brysur yn ystod y mis. Ar y 5ed o Fai bu Eric Rees, Dorian Rees ac Owen McConochie yn cystadlu dros 78 milltir yn Nhrefdraeth ac fe gwblhaodd Llŷr Rees (sy'n 12 oed) y cwrs 40 milltir mewn 3 awr 22 munud. Yna ar yr 11eg aeth 5 aelod i gystadlueth Prawf Amser dros 10 milltir yng Nglyn-Nedd ac eiliadau'n unig oedd rhyngddynt - Eric Rees 24:44, Dorian Rees 24:46, Carwyn Davies 24:49, Owen McConochie 25:45 a Llŷr Rees 30:09 - fe enillodd Llŷr y safle cyntaf yn ei oedran. Yn olaf, ar y 18fed aeth Eric, Dorian, Owen a Llŷr yn ôl i Sir Benfro i seiclo 107 milltir heriol y 'Tour of Pembroke' - tipyn o sialens i'r pedwar ac yn enwedig i Llŷr ond fe lwyddodd i gwblhau'r cwrs mewn 8 awr a 35 munud. Gwell cadw llygad ar Llŷr!



# Llanllwni



Adran Iau yr Ysgol yn ymweld â champws Peirianeg, Prifysgol Abertawe.

## Ysgol Llanllwni

Bu Mare, Tudur a Caio yn cystadlu yn Nhraws gwlad yr Urdd, yn Llangrannog ar ddechrau Mis Mai. Daeth Tudur yn 18fed allan o dros 60 o redwyr. Da iawn chi'ch tri am wneud eich gorau. Yn ystod y tymor yma rydyn wedi cynllunio gweithgareddau amrywiol i'w gwneud yn y parc. Bwriadwn fynd lawr yn gyson a gweithio mewn grwpiau gan ddatblygu ein sgiliau iaith, rhifedd, mapio, celf a chreu cuddfan. Cynhaliwyd ein cyngerdd yng Nghapel Nonni ar nos Wener, 10fed o Fai. Trefnwyd y cyngerdd gan Bwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol. Yr artistiaid oedd Bois y Rhedyn a phlant yr ysgol. Cyfeiliwyd i'r plant gan Mrs. Bethan Hopkins-Jones. Arweinwyd y noson yn hwylus iawn gan Mr. Owain Davies, Gwndwn. Y Llywyddion oedd Mr a Mrs. Eirwyn Davies, Dolgorse. Diolchwyd i bawb gan Mrs Annwen Evans, Cadeiryddes y Pwyllgor. Noddwyd y noson gan A Thomas, Plant Hire Ltd. Cafwyd noson hwylus iawn a chymdeithasol gyda phawb yn gwneud eu gwaith yn raenus. Gwnaed £842 o elw tuag at gronfa'r Pwyllgor.

Mae Blwyddyn 6 wedi cael sesiynau pontio yn Ysgol Bro Pedr er mwyn iddynt gyfarwyddo â'r ysgol erbyn byddant yn dechrau yno ym Mis Medi. Cawsant gyfle i gwrdd â rhai o'r athrawon a chael ambell wers. Mae'r sesiynau yma o fudd mawr i'r plant. Daeth Gwyneth a Siân Elin o Menter Iaith allan i'r ysgol i wneud sesiynau Drama gyda'r dosbarthiadau. Roedd y sesiynau yn hwylus gan wneud i'r plant feddwl yn greadigol. Diolch yn fawr i chi'ch dwy gan obeithio gallwch ddod nôl atom cyn hir! Aeth yr Adran Iau i ymweld â champws Peirianeg, Prifysgol Abertawe, fel rhan o'u thema "Fformiwlâ 3D". Cawsant gyfle i weld argraffydd 3D sy'n adeiladu ceir a chael sgwrs gyda Demitris – ef sydd wedi bod yn ran o'r broses a chefnogi'r plant wrth iddynt adeiladu car rasio Fformiwlâ 1. Bydd y ras rhwng yr ysgolion yn cael ei chynnal ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 22ain ym Mharc Caerfyrddin am 11 o'r gloch. Mae croeso i bawb ddod i gefnogi tîm yr ysgol.

Er mwyn dathlu Cymreictod yr ysgol ac fel rhan o'n Siarter iaith fe drefnodd y Criw Cymraeg sef Mare, Emrys, Iestyn ac Einir "Diwrnod Cymru Cŵl". Yn ystod y dydd buom yn canu caneuon cymraeg, dawnsio, bwyta bwyd Cymreig, chwarae Gemau buarth a chael cwis am Gymru. Mae Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol ynghyd â'r Ysgol Feithrin a'r C.Ff.I wrthi'n trefnu y Diwrnod Hwyl a fydd yn cael ei gynnal eleni ar Ddydd Sul, Gorffennaf 7fed ar gaeau chwarae'r pentref. Bydd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, amrywiaeth o stondinau, barbeciw a lluniaeth. Yn newydd eleni fe fydd yna sêl cist car. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol Mis Mai - 1af - £10 – Teulu Crossroads, Llanllwni; 2il - £5 – Gwion Evans, Brynceirch, Llanllwni; 3ydd - £5 – Jill Light, Brynhedd, Llanllwni.

## C.Ff.I. Llanllwni

Wel, dyma ni wedi cyrraedd pinacl y flwyddyn o ran ein clwb ni. Gan fod y rali newydd gymryd lle, byddwn yn adrodd hanes y dydd i chi gan ddechrau gyda'r canlyniadau. Braf cyhoeddi bod y clwb wedi derbyn cryn dipyn o lwyddiant yn Niwrnod y Rali a gafodd ei gynnal ar Ddydd Sadwrn 11eg o Fai, ar Faes y Sioe yn Nantyci. Dyma restr i chi o'r cystadlaethau a ddaethom ni i'r brig:

Yr Adran Iau - Canu Grŵp Iau = 2il - Sioned Howells, Siriol Howells, Ceris Howells, Sioned Bowen, Lowri Davies a Mare Phillips; Gwaith Coed Iau, sef Palet wedi ei Ailgylchu = 1af - Alwyn Evans a Tomos Jones, 3ydd - Lewis Thomas ac Iestyn Davies; Ar ddiwedd y dydd, daeth yr Adran Iau yn gydradd pedwerydd gyda chlwb Llanfynydd. Yr Adran Hŷn - Arddangosfa Adloniant i Blant = 1af - Hefin Jones, Ifor Jones, Aled Jones, Sara Thomas, Betsan Jones, Jac Jones, Owain Davies, Cathrin Jones, Sioned Howells a Dafydd Evans; Tynnu'r Gelyn = 2il - roedd aelodau'r tîm o glwb Llanllwni, Capel Iwan a Llanyddydfrî; Barnu Gwartheg Duon Cymreig = Cydradd 2il - Anwen Jones ac Ifor Jones; Llyfr Lloffion (Scrapbook) = 2il; Gyrru Tractor = 2il - Anwen Jones ac Aled Jones; Barnu Defaid Mule Cymreig = 3ydd - Anwen Jones a Luned Jones; Cystadleuaeth Grefft = 1af - Betsan Jones; Barnu Merlod Mynydd Cymreig = 2il - Anwen Jones ac Ifor Jones; Gwaith Coed = 2il - Carwyn Lewis a Hefin Jones; Cystadleuaeth Goginio = 2il - Sara Thomas a Nia Davies; Tro ar Hwiangerdd = 1af - Sioned Howells, Siriol Howells, Hefin Jones ac Owain Davies. Ar ddiwedd y dydd, daeth y clwb yn gyntaf yn yr Adran hŷn ac mae'n hyfryd nodi taw dyma'r tro cyntaf i'r clwb ennill yr adran hon ers deng mlynedd ar hugain. Mae'n deg felly i ddweud bod y clwb wedi profi cryn lwyddiant ar ddiwrnod y rali. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch y 4 eitem sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r clwb a'r sir ar lefel y Sioe frenhinol a dymuno pob lwc iddyn nhw i gyd yn eu cystadlaethau. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle yma i ddiolch i bob un oedd wedi bod ynghlwm â pharatoadau'r rali boed hynny yn hyfforddwyr, 'taxi's' neu arweinyddion. Gyda llaw, os ydyn ni wedi anghofio rhywun - wel diolch i chithau hefyd!

Digwyddiad bach arall sydd bellach wedi mynd heibio yw'r Helfa drysor blyneddol. Braf yw cyhoeddi ein bod ni wedi cael cefnogaeth frwd iawn o'r gymuned, a'r tîm a ddaeth yn fuddugol oedd car Arwel Jones, Aled Jones, Ifor Jones, Hefin Jones a Dan Jones. Felly edrychwn ymlaen at Helfa Drysor blwyddyn nesaf er mwyn i ni gael cyfle i weld sgiliau creu helfa drysor y bois! Mae pinacl y flwyddyn i ni'n bersonol hefyd wedi mynd heibio bellach sef y Cinio Blyneddol a gafodd ei gynnal ar y 24ain o Fai, yng Ngwesty'r Ivy Bush lle cawsom noson i'w chofio yng nghwmni ein gilydd er mwyn dathlu'r llwyddiant mae'r clwb wedi ei brofi dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn braf gweld bod cymaint wedi ymuno â ni i ddathlu llwyddiannau'r clwb. Felly dyna ni am y rhifyn yma. Tan y tro nesaf - Mare a Lowri.

## 80 oed

Dathlodd Dewi Davies, Glanafon ei ben-blwydd yn 80 oed ar ddechrau'r mis. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

## Diolch

Dymuna Mrs Mair Harries a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Evan.

## Capel Nonni

Cynhelir Oedfa flynyddol yng Nghapel Nonni ar ddydd Sul, Mehefin 23ain am 2.00y.p. Disgwylir y Parch Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynnwyr Cymraeg i bregethu. Croeso cynnes i bawb.



Diwrnod Cymru Cŵl Ysgol Llanllwni



Diwrnod Cymru Cŵl Ysgol Llanllwni



# Llanllwni

## Cylch Meithrin Llanllwni

Thema'r tymor yma yn y cylch yw Y Lindysyn Llwglyd Iawn. Yr ydym wedi bod yn creu arddangosfa i gyd fynd gyda'r stori drwy ddefnyddio adnoddau megis paent, mwd a defnydd. Roedd y plant yn mwynhau mas draw. Yr ydym hefyd wedi coginio gyda'r plant a chreu pili pala allan o bitsa. Mae adnabod siapau yn bwysig iawn i ni yn y cylch - a'n siâp ar gyfer y tymor yma yw'r cylch. Ein llythyren hefyd yw'r llythyren L, yr ydym wedi bod yn creu'r llythyren L am Lindysyn allan o ewyn eillio. Ar yr 21ain o Fai - fe aethom â'r plant i'r siop leol yma yn Llanllwni er mwyn iddynt gael y cyfle i ddewis bwyd ac i dalu amdano. Ar ôl dychwelyd, cawsant gyfle i flasu'r bwydydd. Yr oedd yn brofiad arbennig iddynt a hoffwn ddiolch yn fawr i'r siop am eu croeso cynnes.

Cofiwch fe fydd cyfarfod blynyddol y Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar y 13eg o Fehefin am 8 yr hwyr yn ysgol Llanllwni. Croeso cynnes i aelodau newydd i ddod i ymuno â ni. Os ydych am fwy o fanylion ynglŷn â Chylch Meithrin Llanllwni, cysylltwch â Nerys ar 01559395624 neu trwy e-bost- cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk . Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook am y newyddion diweddaraf.

## Cylch Ti a Fi

Gan fod y tywydd wedi bod yn braf, yr ydym wedi bod yn chwarae

tu allan ar feiciau ac yn defnyddio offerynnau gwahanol. Yr ydym hefyd wedi bod yn chwilio eitemau yn y mwd, chwarae â hwyaid mewn twr a chwarae gyda phasta lliwgar. Fe fu'r plant hefyd yn plannu blodau haul. Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynhawniau dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofalmwyr, mamgu's a thadcu's i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

## Dathlu Pen-blwydd

Pen-blwydd Hapus i ffrind arbennig sef Susan Evans 13 Bryndulais sy'n dathlu Pen-blwydd arbennig yn ystod y Mis. Oddi wrth Mattie, William a John.

## Clwb Clonc

### Mehefin

- £25 rhif 492 :  
Lois Williams, Cwmann.  
£20 rhif 84 :  
Janet Davies, Cwmsychpant.  
£15 rhif 406 :  
Gwilym Price, Llambod.  
£10 rhif 477 :  
Iona Warmington, Caerdydd.  
£10 rhif 158 :  
Wendy Evans, Blaencwrt.  
£10 rhif 258 :  
Sian Jones, Cwmann.  
£5 rhif 178 :  
Timothy Evans, Llanfair  
Clydogau.

## Eglwys Sant Luc Llanllwni :

Clwb 100 mis Ebrill 2019:

1. £15.00 Mary Davies (44)
2. £10.00 Peter Hector Jones (38)
3. £10.00 Ken Howells (93)

Mis Mai:

1. £15.00 Ray Thomas (rhif 41)
2. £10.00 Emlyn Dudley (10)
3. £10.00 Jessie Harris Jones (35)

Diolch am y gefnogaeth.



**ARWYN VOBÉ**  
**ACCOUNTANCY LTD.**



CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,  
Rhydowen,  
Llandysul,  
Ceredigion.  
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar  
**07557 448234**  
neu

e-bost [arwyn@avaccountancy.cymru](mailto:arwyn@avaccountancy.cymru)

# Drefach a Llanwenog

## Dathlu Pen-blwydd

Dymuna William a John ben-blwydd hapus arbennig i Mattie James, Caellan, ar y 6ed o fis Mehefin. Pob dymuniad da oddi wrth ei ffrindiau a'i chymdogion hefyd. Mwynhewch y dathlu.

## Cylch Meithrin Cledlyn

Mae plant Cylch Meithrin Cledlyn wedi bod yn brysur iawn yn plannu blodau a llysiau tu allan yn ystod yr hanner tymor ac mae pawb yn disgwyl ymlaen i weld a fydd y planhigion wedi tyfu ar ôl gwyliau Sulgwyn. Bydd y plant yn dysgu am anturiaethau'r Lindysyn Bach Llwglyd ar ôl y gwyliau ac yn parhau i edrych ar ôl y blodau a'r llysiau yn yr ardd. Rydym yn gyffrous i gwrdd â ffrindiau bach newydd yn

ein sesiynau Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Llun (amser newydd 9-10.30) ar ôl y gwyliau. Byddwn yn cynnal parti Sali Mali, mynd i'r parc, gwneud gweithgareddau crefft a lluo o bethau eraill. Ymunwch â ni am hwyl a sbri.

## Eglwys Llanwenog

Clwb Cant Mis Mai

1. Megan Jones
2. Wendy Mellor
3. Caroline Davies

Llongyfarchiadau i Rhys ac Elin Jones, Y Caban ar enedigaeth eu hail fab Jac, brawd bach i Charlie, ŵyr i Gareth a Janet Cefnrhuddlan Uchaf a gor-ŵyr i Mrs Viria Jones, Gellideg.

Dewch draw ar bnawn Gwener, Mehefin 28ain rhwng 2yp a 6yh i gael te a pancws. Cyfle hefyd i ddringo 90 o risiau'r tŵr er mwyn gweld y clychau a'r olygfa o'r top. Bydd cyfran o'r elw yn mynd at apêl leol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

Cynhelir yr Helfa Drysor blynyddol ar Nos Wener Gorffennaf 5ed i gychwyn am 6 o'r gloch o Eglwys Llanwenog ac yn gorffen gyda swper yng Ngwesty Cross Hands, Llanybydder. £5 y car. Trefnwyr eleni yw Anthony a Meryl Davies.

## Ysgol Dyffryn Cledlyn

Llongyfarchiadau i Noa Potter Jones ar ennill y wobr gyntaf am lefaru blwyddyn 2 ac iau a hefyd yr ail wobr am ganu blwyddyn 2 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar. Da iawn Noa, rydym yn falch iawn ohonot.

Llongyfarchiadau mawr i Madi Potter ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd eleni gan dderbyn yr ail wobr am ei gwaith 3D. Tipyn o gamp yn wir, da iawn Madi.

Mae dosbarth Mr Roderick wedi bod wrth eu boddau yn cael gwersi beicio yn ddiweddar gan ddysgu am



# Drefach a Llanwenog



Garddio



Prynhawn Eco yr Ysgol.



Traws gwlad yr Urdd, Llangrannog.

**Cylch Ti a Fi Cledlyn**  
 Ble/Where? Ysgol Dyffryn Cledlyn School, Drefach  
 Pryd/When? Pob bore dydd Llun/ Monday mornings  
 09.00-10.30  
 Croeso i rieni/gwarchodwyr a phlant cyn oed ysgol /  
 Parents/guardians and pre school children are welcome

**Rhaglen Haf 2019**  
 Summer 2019 programme

| Trefn y sesiwn<br>Session timetable |                                                       | Dyddiad/<br>Date | Gweithgaredd /<br>Activity             |
|-------------------------------------|-------------------------------------------------------|------------------|----------------------------------------|
| Amser/<br>Time                      | Amserlen/<br>Timetable                                | 03/06/19         | Tuff tray                              |
| 9.00-9.30                           | Gwraeth rhydd/<br>Free play                           | 10/06/19         | Garddio/Gardening                      |
| 9.30-10.00                          | Gweithgareddau'r<br>rhaglen /<br>Programme activities | 17/06/19         | Parti Sali Mali Party                  |
| 10.00-10.15                         | Amser llathu/<br>Walk time                            | 24/06/19         | Tywod/ Sand                            |
| 10.15-10.30                         | Amser canu neu<br>storï/ Story or singing             | 01/07/19         | Crefft / Craft                         |
|                                     |                                                       | 08/07/19         | Bone yn y parc/<br>Morning in the park |

£1 mudiad meithrin

Cawsom eglurhad ar bopeth a oedd yno a sut yr oeddent yn edrych allan am longau tanddwr y gelyn. Diolchwyd iddynt am brynhawn o hanes a fydd yn y cof am dipyn o amser.

Nôl am Gaerfyrddin i westy Llwyn Iorwg am swper blasus a phawb wedi mwynhau diwrnod pleserus iawn. Diolchwyd i Ann Walters am drefnu'r diwrnod gan y Cadeirydd. Edrychwn ymlaen at y trip nesaf ar 12fed o Fehefin. Os ydych am ddod - enwau i Jane Jones ar 480332.

ddiogelwch ar yr heol.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu gyda Ras Dyffryn Cledlyn dros ŵyl y Banc. Bu Mrs Gwyneth Davies a'i gŵr Tim, ein Llywyddion yn agor y digwyddiad. Bu'r rasys plant ysgol gynradd o amgylch tir yr ysgol yn llwyddiannus iawn ac yna'r rasys ar y brif heol i'r rhedwyr profiadol. Codwyd bron i £4500 gan Gymdeithas Rieni ac Athrawon yr Ysgol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Croeso cynnes i ddisgyblion sydd wedi ymuno gyda ni'n ddiweddar, sef Alaw, Elis, Carwyn, Alfie, Beatrice, Nia a Ffion. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith.

Da iawn i bawb a fu'n cymryd rhan yn nhraws gwlad yr Urdd yn Llangrannog, ac yn arbennig i Gethin Jones Thomas am ddod yn drydydd dros Ranbarth Ceredigion.

Cafwyd ymweliad gan swyddog Cadw Cymru'n Daclus, sef Richard Thomas, a fuodd yn sôn wrth y plant ynglŷn â phwysigrwydd arbed dŵr wrth arddio. Aeth ati i gynnal gweithgareddau gyda'r Cyngor Eco a llunio cynllun arbed dŵr. Yn dilyn yr ymweliad daeth Richard â nifer o focsys plannu ac offer garddio i blant yr ysgol yn ogystal â phlannu helyg

er mwyn creu cysgod i'r plant.

Cynhaliwyd Prynhawn Eco blynyddol yr ysgol ar ddydd Iau, Mai 23ain lle cafodd y plant gyfle i wneud gwahanol weithgareddau fel plannu hadau, adeiladu byrddau adar, chwynnu a chreu bwyd adar arbennig.

Cafodd yr Ysgol wahoddiad i ddangos eu gwaith Cyngor Eco ar stondin Cadw Cymru'n Daclus yn ystod Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni. Bu'n gyfle i ni ddangos ein fideo sydd yn sôn am ein Cod Eco a rhannu nifer o adnoddau gydag Ysgolion Eco eraill.

Cafodd y disgyblion brofiad hyfryd yn dysgu o negeseuon pwysig Neges Ewyllys Da yr Urdd, gan rannu'r neges drwy gyfrwng technoleg gydag Ysgol Bro Pedr yn ogystal â chynnal Gwasanaeth arbennig yn ystod y prynhawn.

Bu'r disgyblion yn dysgu cryn dipyn tymor diwethaf am hanes boddli Tryweryn wrth iddynt astudio'r nofel Ta Ta Tryweryn, ac felly peintiwyd slogan 'Cofiwch Dryweryn' trawiadol ar ochr y sied arddio gan y disgyblion.

## Pen-blwydd arbennig

Dathlodd May Griffiths, Blaenpant ei phen-blwydd yn 60 oed yn ystod y mis. Gobeithio eich

bod wedi mwynhau'r dathlu.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mary Davies, Maesglas sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis.

## Y Gymdeithas Hŷn

Cychwynnodd trip mis Mai braidd yn wlyb wrth i ni deithio am Gaerfyrddin a chael paned wedi ei baratoi ymlaen llaw yng Ngwesty Llwyn Iorwg. Ciliodd y glaw ac aethom am Sir Benfro, cyrraedd Cilgeti ac i weithdy Llwyau Caru sy'n cael eu gwneud gan Dad a Mab - menter a ddechreuodd ar ôl i'r tad glywed beth oedd ystyr a dechreuad y llwy garu, a mentrodd roi cynnig arni a gwneud un ei hun. Roedd y llwyau yn wledd i'r llygad, roedd yna un yn mesur 27 troedfedd, yr hiraf yn y byd. Ar ôl cael amser i edrych a phrynu'r rhai a oedd ar werth, diolchwyd iddynt gan ein Cadeirydd am fore diddorol iawn.

Mynd ymlaen wedyn i Boars Head i gael ein cinio ac yna i Garew i weld Amgueddfa'r Awyrlu a Thŵr Rheolaeth o gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Roedd y fenter hon yng ngofal gwirfoddolwyr.

## Mab bach

Llongyfarchiadau i Elen a Dylan Davies, Dolydd Dŵr ar enedigaeth mab bach, Ioan Hedd. Brawd bach i Elliw Grug ac ŵyr bach i Gareth a Mary Davies, Maesglas. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

## Diolch

Dymuna Mary, Maesglas ddiolch i bawb o waelod calon am yr holl gonsyrn amdani yn dilyn ei llaw driniaeth yn Ysbyty Glangwili ar ddechrau mis Mai. Mae pawb wedi bod yn garedig tu hwnt drwy ddanfôn cardiaid, blodau, anrhegion, cacennau a'r holl roddion iddi ar adeg ei anhwylder. Mae'r ymweliadau gan ffrindiau oll wedi bod yn gysur mawr i mi – hyfryd oedd gweld pawb. Gwerthfawrogaf y cyfan oll yn fawr iawn.

# Cwmsychpant

## Dathlu

Dathlodd Mary Davies, Maesnewydd ben-blwydd arbennig yn ystod mis Mai. Llongyfarchiadau i chi a gobeithio eich bod wedi dathlu mewn steil.



# Llanfair



Talent Newydd Lleol - Brynmor Thomas, Awelon

## Talent Newydd Lleol

Mae Brynmor Thomas, Awelon, Heol Llanfair wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn nhîm y dartiau iau. Mewn treialon yng Nghasgwent yn ddiweddar daeth Brynmor yn un o bump dros y wlad o dan ddeunaw i gyflawni dewisiad awtomatig ar sylfaen pwyntiau. Roedd y safon yn uchel iawn gyda chwe bachgen, yn cynnwys Brynmor yn sgorio uchafswm o gant wythdeg yn ystod y dydd. Bydd Brynmor yn awr yn cynrychioli Cymru yn J.D.C.Cwpan y Byd yn Gibraltar ym mis Medi. Mae hefyd wedi ennill ei le i gystadlu yng nghampwriaeth Ewropeaidd a Byd Eang. Mae ar hyn o bryd yn aelod o dîm sydd newydd ei sefydlu - Tîm Dartiau Ieuanc Bedlam Academi ac mae hefyd yn chwarae i dîm Llain y Castell yng nghynghrair Dartiau Tref Llanbed. Dymunwn iddo bob llwyddiant.

## Sefydliad y Merched



Ym mis Ebrill cawsom noson agored pan ddaeth llawer ynghyd i wrando ar deulu o Gei Newydd yn siarad am eu hadar ysglyfaethus a sut y daethant i'w casglu. Noson y tylluanod oedd hon. Cymerwyd y rhan flaenllaw gan y fam gyda'r ferch

yng ngofal yr adar. Daethant â thair i ddangos, yn gyntaf y dylluan fechan, yna'r dylluan glustig ac yn olaf y dylluan wen. Roedd yn brofiad hyfryd i gael eu gweld mor agos, ac mor ddiddorol oedd eu personoliaethau a'u plu arbennig o brydferth. Roedd y noson yn un addysgiadol gyda phawb wedi mwynhau. Daeth y noson i ben gyda nifer o gwestiynau a lluniaeth hyfryd fel arfer wedi ei baratoi gan ferched y gangen.

Ym mis Mai cafwyd noson allan yn yr Hedyn Mwstard yn Llanbed, pan wnaeth Liz Jones ddangos i ni sut i goginio dau fath o swper rhwydd, - pastai tatws a chaws a phastai reis, wy a thiwna. I bwdin dangosodd i ni sut i rowlio merang i wneud rwlad mafon a llysiau glas. Ar ôl gorffen cawsom bryd arbennig gyda diod blodau'r ysgawen i'w yfed a the a choffi i orffen. Noson i'r brenin gyda llawer o hwyl a chymdeithasu, a diolchwyd yn gynnes i Liz gan Dodi ein llywydd, am ei holl waith a'r bwyd a oedd mor flasus.

## Cydymdeimlo.

Trist iawn oedd clywed bod Gareth Davies, Ger y Nant ac Ieuan Thomas y Felin wedi colli eu brodyr yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r ddau a'u teuluoedd hefyd.

## Bore o Hwyl

Mae pwyllgor Cronfa Eisteddfod 2020 Llanfair a Chellan wedi trefnu bore o wersi Cymraeg- syniad poblogaidd ymysg pobl leol. Gwersi Cymraeg syml llafar gwlad fydd y rhain - 'Welsh Can Be Fun' o dan ofal Dylan Lewis, athro Cymraeg lleol profiadol. Byddant yn cymryd lle ar fore Sadwrn, Mehefin 8fed o 10.30 yb hyd hanner dydd. Y syniad yw annog diddordeb yn yr Eisteddfod, a rhoi gwybodaeth am yr holl weithgareddau fydd yn mynd ymlaen yn ystod yr ŵyl. Croeso i'r dysgwyr a ni'r Cymry. Rhewch y wybodaeth i gymdogion a ffrindiau di-gymraeg a dewch i gael hwyl a chymdeithasu dros baned a chacen.

## Diolch.

Dymuna Martin ac Eleri Quan, Sŵn yr Afon, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn. Diolch yn arbennig i'r plant am drefnu parti bach teuluol annisgwyl a diolch i bawb am eu caredigrwydd.

# Yn y Gegin gyda Gareth



## Mwynhau Mis Mehefin

Gyda'r haf yma, mae yna deimlad hafaidd braf yn llenwi'r gegin. Dewis helaeth o lysiau a ffrwythau sy'n fy ysbrydoli i greu ryseitiau pwrpasol ar gyfer yr haf. Bwydydd ffres, lliwgar a blasus.

Mae'r casgliad yma o ryseitiau yn addas i'w mwynhau wrth wledda mas tu fas ar nosweithiau hyfryd mis Mehefin. Felly, beth am gael y swper yma heno yn yr ardd o dan y parasol !

Hwyl,  
Gareth

## Eog a 'Salad yr Haf'

|                                |                                        |
|--------------------------------|----------------------------------------|
| 1 pecyn o ddail rocet          | 200 g pys ffres neu o'r rhewgell       |
| 1 winwnsyn coch wedi'i sleisio | 160 g betys wedi'u coginio a'u sleisio |
| 4 x 125g ffled eog             | ychydig o gennin sifi                  |
| 4 llwy fwrdd crème fraiche     |                                        |

## Dresin:

|                             |                     |
|-----------------------------|---------------------|
| 3 llwy fwrdd olew'r olewydd | 1 llwy de o fwstard |
| 1 llwy de o fêl             | sest a sudd 1 lemwn |

## Dull:

1. Gorchuddiwch y pys â dŵr twym am tua 5 munud.
2. Cymysgwch y rocet, winwns a'r betys; draeniwch y pys a chymysgwch i'r salad.
3. Curwch gynhwysion y dresin, a'u cyfuno i'r salad.
4. Coginiwch yr eog mewn padell ffrio am tua 5 munud.
5. Cymysgwch y cennin sifi i'r crème fraiche, a gweinwch gyda'r salad a'r eog.

## Tarten Tomatos

|                                          |
|------------------------------------------|
| 1 pecyn o does pwff wedi'i rollo'n barod |
| 2 llwy fwrdd o besto                     |
| 4 tomato mawr                            |
| 50 g. o domatos haul-goch                |
| 1 'punnet' o domatos ceirios             |
| 125 g caws mozzarella                    |
| Ychydig o ddail basil                    |

## Dull:

1. Trowch y ffwrn i 200 C, 180 Fan, Nwy 6. Agorwch y rholyn toes ar dun pobi, a gwnewch fframwaith â chylllell o gwmpas yr ochrau. Pobwch am 15 munud.
2. Gwasgarwch y pesto dros y toes. Sleisiwch y tomatos mawr, a hanerwch y tomatos bach. Gosodwch dros y toes, a'r mozzarella wedi'i ddarnio. Nôl i'r ffwrn am tua 15 munud.
3. Torrwch y dail basil drosto. Hyfryd gyda salad.

## Pwdin Mefus Mehefin

|                 |                           |
|-----------------|---------------------------|
| 500 g mefus     | 2 llwy fwrdd siwgrw eisin |
| 4 meringue      | 2 llwy fwrdd sudd lemwn   |
| Ychydig o 'gin' | hufen iâ mefus, a hufen   |

## Dull:

1. Cadwch 6 o'r mefus ar gyfer addurno.
2. Gosodwch y mefus, siwgrw a'r sudd lemwn mewn prosesydd bwyd, a malwch y cynhwysion; yna rhidyllwch y cyfan.
3. Torrwch weddill y mefus yn ddarnau, cymysgwch â'r gin, a rhannwch rhwng 6 gwydr. Ychwanegwch yr hufen iâ.
4. Malwch y meringues drosto, ac yna ychwanegu'r saws mefus.
5. Addurnwch gyda'r 6 mefus wedi'u haneri, ac ychydig o fintys.





Enillwyr prif gystadlaethau Carnifal Cwmann gyda'r Llywydd Mr Graham Howell a Mrs Howell a'r beirniaid Carys a Dylan Davies.

## Carnifal Cwmann

Ar Ddydd Sadwrn, 25ain o Fai, cynhaliwyd carnifal a mabolgampau blynyddol y pentref. Eleni, penderfynwyd peidio cael brenhines a'i gosgordd yn rhan o'r dydd gyda'r bwriad o gynnal diwrnod llai ffurfiol a chael nifer o weithgareddau i'r plant. Wedi blynyddoedd o godi arian a chynllunio, fe agorwyd parc chwarae'r pentref yn swyddogol gan lywydd ein dydd, Mr Graham Howell. Braf iawn oedd ei groesawu i'n plith yn enwedig yn dilyn ei salwch diweddar a diolch o galon iddo am ei rodd haelionus iawn i goffrau'r pentref.

Gwelwyd nifer o gymeriadau lliwgar yn ymddangos yng nghylch y carnifal gyda'r beirniaid Dylan a Carys Davies yn cael gwres eu traed. Y buddugwyr yn y gwahanol gategoriâu oedd: Cylch Meithrin ac iau: Ilan Alffi; Dosbarth Derbyn: Osian Jones; Bl 1&2: Elin Dafydd Lewis; Bl 3&4: Lyndon Gale; Bl 5&6: Seren Ling; Ysgol Uwchradd: Gwenllian Llwyd; Pâr gorau: Aron ac Efa Russell; Cymeriad gorau'r dydd: Seren Ling. Y thema ar gyfer y fflôt eleni oedd "Fy hoff gân" a llongyfarchiadau i Megan, Lloyd, Elin a Mari gyda'u fflôt "Baby shark".

Cafwyd llawer o gystadlu brwd yn y mabolgampau a thipyn o chwerthin wrth i'r plant uwchradd gymryd rhan yn y ras rwystrau. Roedd y cae yn fwrwm o ddigwyddiadau a stondinau, gyda chastell bownsio, sumo wrestlers, Sgiliau, gweithgaredd bêl droed, BBQ, Standin losin, St John's a lluniaeth wedi'i ddarparu gan y W.I. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod.

## C.F.F.I Cwmann

Roedd hi'n ddiwrnod braf a C.F.F.I Cwmann yn barod am ddiwrnod yn llawn dathlu a chystadlu. Wedi'r holl ymarferion a'r paratoi, daeth yr amser ac yr oeddem yn barod am ddiwrnod llawn. Buodd y criw wrthi mewn

amryw gystadlaethau o'r Statig, i Gêm yr Orsedd a hyd yn oed mentrodd Elen a Marged i goginio picau ar y maen. Rhwng yr holl gystadlu, roedd hi'n braf gweld Carys ein harweinyddes yn helpu drwy'r dydd yn ei rôl fel cadeirydd cyllid. Ar ôl diwrnod yn llawn cystadlu, y pinacel oedd ennill yr ail safle yn y Dawnsio ac yna'r safle cyntaf yn y Canu Grŵp Iau. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi gyda phopeth boed yn peintio, coginio neu farnu stoc, ac i Gapel Brondeifi a Band Brondeifi am gael defnyddio'r capel i ymarfer ac am fenthyg y drymiau ar gyfer y Canu Grŵp. Roedd hi'n ddiwrnod i'w gofio gyda phob un o'r clwb o'r aelodau i'r arweinyddion yn cymryd rhan. Ymlaen i 2020!

## Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Trystan Williams, Sarn Helen, a gafodd ddamwain mewn ras beiciau modur yn ddiweddar. Gwellhad buan i ti Trystan.

## Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Cyflwynodd y Côr £300 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 trwy Gronfa Apêl Leol Llanbed. Cyflwynodd Kees Huysmans, Cadeirydd, y rhodd i Rhys Bebb Jones, Trysorydd Cronfa Leol Llanbed, yng nghwmni Elonwy Davies (Arweinydd), Elonwy Pugh-Huysmans (Cyfeilydd) ac aelodau'r Côr. Prif swyddogion eraill y Côr eleni yw Geraint Davies (Is-gadeirydd), Alun Jones (Ysgrifennydd), Meirion John (Trysorydd) ac Alun Williams (Llywydd).

Mae'n gyfnod prysur i'r Côr yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Talgarreg a'u cyfraniad yng Ngorymdaith Dydd Gŵyl Ddewi Llanbed. Cynhelir Noson Mefus a Hufen gan y Côr yng Nghlwb Bowlio Llanbed nos Wener 28ain Mehefin am 7.00 o'r gloch a'r elw eto'n cefnogi Eisteddfod



Dyma Gôr Cwmann yn cyflwyno £300 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

## Genedlaethol Ceredigion 2020.

Mae croeso arbennig i unrhyw denor neu faswr ymuno â ni. Dewch i'n hymarferion yn Festri Capel Brondeifi, Llanbed bob nos Fercher am 8 o'r gloch a chael digonedd o ganu! Cewch wybodaeth bellach ar ein gwefan: <http://www.corcwmann.btck.co.uk/>

Rhys Bebb Jones

Swyddog y Wasg

## Her yr Artig

Tra'n bod ni yma yn mwynhau'r heulwen braf dros Wyl y Pasg, roedd Manon Williams, Sarn Helen yn brwydro yn erbyn gwyntoedd oerion, rhew ac eira'r Artig yn ei hymdrech i gerdded 100 cilometr mewn 5 diwrnod. Y pwrpas oedd i godi arian tuag at Gofal Cancr Ysbyty Felindre, ac mae Manon am ddiolch i bawb wnaeth ei chefnogi drwy gyfrannu at yr achos, ac fe lwyddodd i godi £1500 sydd wedi ei drosglwyddo i gyfrif yr elusen erbyn hyn, felly diolch o galon i bawb. Mae'n braf cael dweud ei bod wedi cwblhau'r dasg yn llwyddiannus a llongyfarchiadau mawr iddi ar y gamp.

## Pasio Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau mawr i Lisa Elan, Hafod y Gân, sydd wedi pasio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti Lisa a gyrra'n ofalus!

## Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd Hapus iawn i Eleri Davies, Heol Hathren a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed yn ystod mis Mehefin. Mwynha'r dathliadau Eleri!

## Swydd Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Roberts, Caeronnen ar dderbyn swydd newydd fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Bro Dinefwr, Llandeilo. Dymuniadau gorau iddi

## ym Mis Medi

## Pwyllgor Pentref Cwmann

Enillwyr Misol Clwb 225 Mis Mai - 1. Mr T. Price, Gelliwrol Cwmann, 25. 2. Mrs Mary Davies, Dolcoed, Llanwnen, 13. 3. Dave & Val Thrall, Kings Park, Cwmann, 58. 4. Mrs Eluned Evans, 16 Treherbert, Cwmann, 82. 5. Dawn Ling, Cysgod-Y-Coed, Cwmann, 79. 6. Mrs D. Harries, 21. Heol-Hathren, Cwmann, 131. 7. Mr Cerdin Price, Langwm, Bryn Rd, Llambled, 41.

## Neuadd Sant Iago Cwmann

Enillwyr Misol Clwb 125 Mis Mai - 1. Hall & Eli Reigert, 2, Cysgod-y-Coed, Cwmann, 78. 2. Emyr Jones, Teifi Forge, Cwmann, 40. 3. Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, 11. 4. Glenys Harrison, Tyhir, Llanfair Rd, Llambled, 59. 5. Mr W. J. Mason, 21, Treherbert, Cwmann, 130. 6. Gwynfor Lewis, Bronwydd, Heol-y-Bont, Llambled, 105. 7. Eifion Evans, Beilicoch, Cwmann, 14.

**£17.50 yw pris**  
**Tanysgrifiad Blwyddyn**  
**Papur Bro Clonc.**  
**Beth am ei brynu fel**  
**anrheg?**

**Cysylltwch â**  
**Mary Davies,**

**Ysgrifenyddes Clonc**  
**[ysgrifennydd@clonc.co.uk](mailto:ysgrifennydd@clonc.co.uk)**

50  
1968-2018

50  
1968-2018

**Côr Meibion Cwmann a'r Cylch**  
yn cyflwyno

**Noson o Adloniant gyda Mefus a Hufen**

yng nghwmni artistiaid ifainc

Clwb Bowlio Llanbed  
28 Mehefin 2019

7.00 o'r gloch      £5.00

Tocynnau ar werth oddi wrth aelodau'r côr,  
Mark Lane a Siop y Smotyn Du, Llanbed

E

E

Elw tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020



## Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer  
pob achlysur'*

\* Cacenau pen-blwydd gyda llun  
(ffotograff)

\* Bwffe mawr neu fach

\* Dantethion i de

\* Pwdinau

\* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



**Sirian Davies, Coedlannau**

**Fach, Cwrtnwydd,**

**01570 434 243**

**07815 962 045**

**Graham Jones**

## Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherfferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



## Dawns WELSH GIFTS

Llanbedr Pont Steffan

**COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG  
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU  
GWNEUD A LLAW YN EIN GWETHDY**

\*\*\*\*\*

DELWCH I YMWELD A'N ADRAU BRIODASAU NEWYDD

**01570 423884**

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,

Heol Pontfaen, Llanbedr

Ffôn: 423300 Ffacs: 423223

mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth  
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich  
cartref

## Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris  
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,  
beic modur



Yswiriant tŷ/  
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,  
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr

Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorwyr Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig  
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Cwmann

## Ffarwelio â Dr Strange

Penodwyd heddiw'n ddydd o wledd  
I ddathlu'r deuddeg mlynedd,  
A rhoddi diolch ardal gron  
Am waith ein parchus ganon.  
Ers iddo ddod i Llanycrwys  
Ni chafodd fawr o orffwys,  
Bugeilio fu o Sul i Sul  
Ei ddefaid yn ofalus.

Bu William Strange, ei wraig ef Fen  
A hefyd y ddau fachgen  
Yn lledu'r neges wrth eu bodd  
Mewn dyddiau digon anodd.  
Arch ddiagon yw erbyn hyn;  
Dyrchafiad gan yr Eglwys,  
Ond ni ymlaciodd yn y gwaith  
O droi ei fro'n baradwys.

Bydd croeso mawr pan ddewch yn ôl  
Am dro ar ôl ymddeol  
Cewch bwyso yma dros y glwyd  
I weld yr had a heuwyl.  
Pob bendith; chwi eich dau a'r wŷr,  
I Oliver a Harri  
Na fyddwch drist wrth ddweud ffarwel  
Mae Crist yn dal i'n caru.



Yn ystod gwasanaeth boreol Sul olaf mis Mai yn Eglwys Sant Iago,  
Cwmann, cyflwynwyd llun wedi ei beintio a ffotograffau wedi eu fframio  
ynghyd â siec dysteb i'r Hybarch Dr William Strange gan Wardeniaid  
Eglwys Cwmann, Pencarreg a Llanycrwys ar achlysur ei ymddeoliad ac fel  
arwydd o werthfawrogiad am ei wasanaeth fel ficer dros y ddeng mlynedd  
ddiwethaf. Yn dilyn, cafwyd bwffe bendigedig yn Neuadd y pentref. Yn  
y llun mae - o'r chwith- Graham Evans, Cwmann; David John Evans,  
Pencarreg; yr Hybarch Dr. William Strange: Danny Davies, Cwmann; Mrs  
Fenella Strange; Judy Jenkins, Llanycrwys; Parch. Oliver Strange ac Ethel  
Davies, Llanycrwys.

## Gorsgoch



### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dai Evans, 7  
Maes yr Hafod ar dderbyn Plat Halen  
y Ddaear mewn gwerthfawrogiad o'r  
hyn y mae'n ei wneud i'r henoed yn  
bennaf ym mhlwyf Llanwenog.

## Llanwnnen

### Cerddor o fri

Llongyfarchiadau mawr i Eryl  
Thomas, 5 Bro Cadarn ar basio  
arholiad Gradd 8 ar y Piano yn  
ddiwedd ar hefyd Gradd 5 gydag  
anrhydedd ar y gitâr. Da iawn ti!

### Diolch

Dymuna Glenys a'r teulu  
Penbontbren ddiolch i bawb am  
bob arwydd o gydymdeimlad a  
charedigrwydd a ddangoswyd tuag  
atynt yn ystod eu profedigaeth  
o golli John - gŵr, tad, tad-ying-  
nghyfraith a thad-cu annwyl iawn.

### Priodas Dda

Priodas dda i Trystan Hammond,  
Llaindelyn ar achlysur ei briodas  
â Seren Hinton Jones yn ystod mis  
Mai. Pob dymuniad da i chi.

### Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Mary Richards, Lowtre ben-  
blwydd arbennig yn ystod diwmodau  
cyntaf mis Mehefin. Gobeithio eich bod  
wedi mwynhau'r dathlu.

### Llwyddiant cerddorol.

Llongyfarchiadau mawr i Nia  
Williams, Tynllyn am basio Step 1 ar y  
piano yn ddiwedd gydag anrhydedd  
dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

## Ceiriadur

Annwyl Ddarllenwyr

### Cyfarfod Blynnyddol

Estynnir croeso cynnes i chi  
fynychu Cyfarfod Blynnyddol  
Cyfeillion Geiriadur Prifysgol  
Cymru a gynhelir am 2 o'r gloch  
dydd Sadwrn, 22 Mehefin, yn y  
Ganolfan Uwchegyrdiau Cymreig  
a Cheltaidd yn Aberystwyth. Ein  
siaradwyr eleni fydd Llywydd y  
Cyfeillion, y Prifardd Myrddin ap  
Dafydd, ynghyd â D. Geraint Lewis  
ac Ann Parry Owen.

Yn dilyn y cyfarfod bydd cyfle i  
ymweld â swyddfeydd y Geiriadur  
ac i gael 'paned o de a chyfle i  
gymdeithasu. Yr ydym yn gobeithio  
cael cwmni nifer o'n Cyfeillion, a  
hefyd croesawu Cyfeillion newydd –  
bydd modd ymuno â'r gymdeithas ar  
y diwrnod.

Am fwy o wybodaeth ewch  
i'n gwefan [www.geiriadur.ac.uk](http://www.geiriadur.ac.uk),  
e-bostiwch [cyfeillion@geiriadur.ac.uk](mailto:cyfeillion@geiriadur.ac.uk),  
neu ffoniwch 01970 639094.

Yn gywir

Mary Williams

Ysgrifennydd y Cyfeillion

28 Mai 2019

## T. Emyr Jones Adeiladwr



**Araul, Cwmann**

**01570 423921**

**07867 945174**



**Cegin Gareth**

**Goedwig**

**Llanbedr P.S.**

**SA48 7JP**

**01570 422 313**

**Blodau**

**Cacenau**

**Dathliadau**

**Partion**



Oes angen cyngor arnoch?  
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chi gysylltu â ni.

**ADVE**

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS  
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed  
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

**Carpedi**

**Gwyn Lewis**  
Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

**TEIARS**  
**HUW LEWIS**

**TYRES**

TEIARS  
BRECYS  
BATRYS  
GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
01570 422221

**Tim Jones**



**Ffotograffydd**

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan  
☎ 01570 422644

**Mwnici ffwnci**



Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.

**Sioned Green**  
a **Mared Jones**  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambed

☎ 01570 423135  
☎ 07811917799 /  
07968821035

✉ mwniciffwnci@hotmail.com

# MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Newid hinsawdd ... newid ffordd o fyw?

Ai dychymyg sy'n gyfrifol? Dwn i ddim. Ond mi fyddwn i'n taeru bod mwy o glychau glas a blodau drain gwynion o amgylch yr ardal eleni. Roedd y goedwig ym Maestir yn drwch o glychau'r gog, fel petai ryw arddwr wedi gosod shiden las anferth i warchod bonion y coed. Ac mae'r ddraenen wen yn ffrydio ymhobman, yn rhacodrau i lawr llethrau'r brynau ac yn ffirwydro o'r ddaear fel dŵr o ffynhonnau gwyn. Be sy'n gyfrifol? Roedd yr hen bobol yn arfer credu bod ffirwythlondeb o'r fath yn arwydd o ba dywydd oedd i ddod ... ond mae sens yn dweud mai tywydd y gaeaf sy'n gyfrifol, ac efallai amodau'r gwanwyn.

Y llynedd, roedd hi'n ymddangos ein bod ni am gael gwledd o lysiau bach ond mi drodd aeron bach coch addawol dechrau'r haf yn grebachlyd a chrin yng ngwres diarbed yr haul. A'r cyfan, efallai, yn arwydd o'r newidiadau sy'n digwydd yn gyson a di-droi'n ôl. Mi fyddai'n eironi pe bai sbloet las a gwyn y gwanwyn eleni yn arwydd fod dinistr ar y ffordd. Pobol ifanc sydd ar hyn o bryd yn arwain yr ymgyrchu yn erbyn newid hinsawdd, yn mynd ar streic o'r ysgol ac, yn ôl pob golwg, yn troi cefn ar rai o arferion gwaetha'r genhedlaeth o'u blaen. Ond mae'r protestiadau yn y dinasoedd hefyd wedi tynnu sylw, ochr yn ochr â'r rhybuddion sy'n dod yn gynt ac amlach gan wyddonwyr – yn rhybuddio rhag cynnydd yn lefel y môr a rhag colli mathau cyfan o adar, anifeiliaid a phlanhigion.

Ond mae yna un peryg yn y ffordd y mae pobol yn ymateb wrth feddwl am yr hyn y gallwn ni i gyd ei wneud i gyfrannu at wella pethau. Mae angen hynny, wrth gwrs, ond mae angen mynd ymhellach hefyd. Fydd bwyta llai o gig neu osod paneli haul ddim yn ateb y broblem os ydi'r gwledydd a'r cwmnïau mawr yn dal i'n gwtio ni i ddefnyddio mwy a mwy o adnoddau'r ddaear. Fydd newid i gar trydan ddim yn ddigon, os ydi pobol fusnes yn hedfan yn ôl ac ymlaen ar draws y byd ddwsinau o weithiau'r flwyddyn.

O wrando ar rai o'r ymgyrchwyr mwya' – a gorau – yn erbyn newid hinsawdd, mi allech chi feddwl mai cefn gwlad ydi'r broblem. Llanbedr nid Llundain. Mae yna symudiadau ar droed i ail-wylltio rhan o Geredigion a'u troi nhw'n ôl yn debyg i'r hyn oedden nhw ganrifoedd yn ôl. Ac mae yna bwyslais ar ffermio llai dwys a gwarchod cynefinoedd. Hyd y gwela'i, mi fyddai llawer o bobol cefn gwlad a ffermwyr yn ddigon parod i weld adfer ychydig ar yr hen ddulliau, pan oedd ffermydd yn gymysg ac anifeiliaid yn cael rhyddid i grwydro. Pan oedd caeau'n llawn amrywiaeth o weiriau yn hytrach na choncridd gwyrd.

Dw i'n amau dim y byddai amryw'n fodlon mynd yn ôl i ddulliau felly hefyd, pe bai'r system yn caniatáu iddyn nhw wneud – pe bai'r drefn brisiau a'r marchnadoedd yn golygu eu bod nhw'n gallu gwneud bywoliaeth iach trwy ddilyn arferion felly. Nid ni oedd yn gyrru'r newid a fu mewn ffermio; nid bwydo pobol cefn gwlad sydd wedi gyrru'r ffermio dwys. Mae'r hyn sydd wedi digwydd wedi'i wthio gan economi'r dinasoedd, lle mae yna brysurdeb ffyrnig a pheiriannau sy'n creu a llyncu arian.

Ac, felly, pe bai'r ailwylltio'n digwydd, mi allech chi ddychmygu pobol y dinasoedd yn tyrru yma i gael blas o natur a chynefinoedd perffaith, cyn gyrru'n ôl i wallgofrwydd llawn traffig a brys eu cartrefi. Ar ôl ystumio ein ffordd o fyw, ein cosbi am hynny wedyn.

Mae yna rywogaeth arall mewn peryg ... pobol sydd eisiau byw yn Gymraeg yn eu cynefinoedd. A chynefin yn golygu'r un peth â chynefin unrhyw aderyn neu greadur – lle cyfarwydd i ffynnu a theimlo'n gartrefol. Mae angen i ni addasu, wrth gwrs, ond mae angen edrych yn galetach i weld be ydi'r broblem go iawn.

**Weldio D & W Welding**

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,  
Penffordd,  
Llanybydder,  
Ceredigion,  
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau  
haearn ac hefyd eich holl  
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS  
& BOURNE**

CYFREITHWYR,  
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,  
Llambed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540  
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

**PHILIP JONES**  
FINANCIAL SOLUTIONS  
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu  
& Busnes • Offer Amaethyddol  
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau  
Masnachol • Cyfleusterau  
Amddiffiniad Offer Newydd a  
Ddefnyddir

**Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies**  
07757 668339 / 01544 340562  
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk  
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the  
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llambed



Cae Celyn, Heol Llanfair,  
Llambed, SA48 8JX  
01570 422819  
www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â  
phob math o breblemau gyda choed.

**W.D.  
Lewis**  
a' Fab

Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants

**Melin Mark Lane Mill**  
Llanbedr Pont Steffan  
Ceredigion SA48 7AG  
Tel: 01570 422540  
Fax: 01570 423644  
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn  
Broneb Stores  
Pumsaig, Llanwrda  
Tel: 01558 650215



**COMPASS  
OFFICE  
SUPPLIES**

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol  
Llanbedr, Heol Tregaron,  
Llanbedr.

☎ 01570 422955  
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

**AA  
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac  
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrim, Offer llaw a  
phwerau, Polion a thraciaau lleni,  
gwasanaeth terri allweddol a  
pleiriannau cynysgu paent  
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.  
3 Stryd y Bont  
Llanbedr Pont Steffan  
01570 423156





Tyngrug-Ganol,  
Cwmsychpant,  
Llanybydder.


Annwyl ffrindiau,

Shwt mae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod y mis diwethaf a phawb yn hapus braf. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i fynd i'r traeth i adeiladu cestyll tywod a nofio yn y môr. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwrando ar oedolyn. Cofiwch wisgo eli haul, het a sbectol haul er mwyn gwneud yn siŵr nad ydych yn llosgi. Rhaid cofio hefyd i beidio mynd yn bell o olwg oedolion. Ond yn bwysicach oll, rhaid cofio i fwynhau yng nghanol y tywod.

Wel cefais ambell lun arbennig drwy'r post a phawb wedi bod yn brysur yn lliwio'n lliwgar a thaelus. Roeddwn wrth fy modd gyda llun Sofia Draycott Evenden, ond y llun sy'n dod i'r brig yw un Sara Fflur Pugh, Ucheldir, Ffair-Rhos. Da iawn chi a llongyfarchiadau i ti Sara Fflur!

Dw i'n edrych ymlaen at wyliau'r haf er mwyn mynd am dro i draeth Cei Bach i fola heulo ac adeiladu cestyll tywod. Fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth? Ble mae'ch hoff draeth chi? Wel beth am fynd ati i liwio llun o'm ffrind Caio'r Cranc yn mwynhau ei ddiwrnod ar y traeth a'i ddychwelyd ataf cyn gynted â phosib.

Ta ta tan toc.



Enillydd  
ymis!

Sara  
Fflur  
Pugh


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,  
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

## Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol  
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Bar symudol ar gyfer  
digwyddiadau allanol  
boed yn fawr neu'n fach



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:  
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor arllannd i chi?

Os ydych wedi atal gwasanaeth banc ac mae'n eiddoedd profedus, gallaf eich cynnig cyngor.

Gyda throes 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynllunio a Rheddiadu • Yswiriant a Ddiogelo • Cynllunio ar gyfer ymddol

Taliadau teith • Rheoli Ffôn • Mergolau ar Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor arllannd yn eiddoedd profedus.

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

True potential  
wealth management.

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw  
Cyfeiriad  
Coc post  
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
Gwobr: Bag Siopa Clonc  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

|   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 |   | 1 | 6 |   |   |
|   |   |   | 5 |   | 7 |
|   |   |   | 8 | 2 | 6 |
|   | 9 |   |   | 4 | 6 |
|   | 4 | 6 | 9 | 8 | 3 |
| 3 |   | 8 |   | 1 |   |
| 9 | 8 | 7 | 2 |   |   |
|   | 5 |   | 8 |   |   |
|   |   | 5 | 9 |   | 8 |

## Swdocw Mai

Llongyfarchiadau i:

Eirlys Davies,  
Llanybydder, a diolch i  
bawb arall am gystadlu:  
Mair Williams, New  
Inn; Richards Evans,  
Olmarch; Sian Blake,  
Gorsgoch; Eurwyn Davies,  
Llanybydder; Vivienne  
Evans, Parc-y-rhos; Avril  
Williams, Cwmann;  
Augusta Davies, Llanbed a  
Nicola Cutts, Blaenpennal.

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | 2 | 9 | 8 | 5 | 6 | 7 | 3 |
| 5 | 8 | 9 | 6 | 3 | 7 | 2 | 4 | 1 |
| 7 | 6 | 3 | 2 | 4 | 1 | 5 | 9 | 8 |
| 9 | 3 | 4 | 7 | 1 | 2 | 8 | 6 | 5 |
| 8 | 1 | 6 | 4 | 5 | 9 | 3 | 2 | 7 |
| 2 | 7 | 5 | 3 | 6 | 8 | 4 | 1 | 9 |
| 6 | 5 | 7 | 8 | 9 | 4 | 1 | 3 | 2 |
| 4 | 9 | 1 | 5 | 2 | 3 | 7 | 8 | 6 |
| 3 | 2 | 8 | 1 | 7 | 6 | 9 | 5 | 4 |



# RALI C.F.F.I SIR CÂR



Grŵp Canu buddugol  
C.F.F.I Cwmann



C.F.F.I Llanllwni yn cipio'r darian fawr am ennill yr adran hŷn

## Y Llysgenhadon yng nghwmni Llywydd a Chadeirydd y Sir



Coginio – Sara a Nia – 2il  
(Llanllwni)



Crefft – Betsan Jones – 1af  
(Llanllwni)

# LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR  
SIARTEDIG  
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB



Canu Grŵp Iau – Sioned H , Sioned B, Siriol, Mared, Ceris, Lowri – 2il  
(Llanllwni)

## CYFRI

CYNGORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL  
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:  
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,  
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

**Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA**

**Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS**

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.  
Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



Tro ar Hwiangerdd – Hefin, Owain, Sioned a Siriol – 1af (Llanllwni)



# EISTEDDFOD CENEDLAETHOL YR URDD 2019



Noa Potter-Jones, Ysgol Dyffryn Cledlyn enillodd y gystadleuaeth Llefaru Bl 2 ac Iau ac 2il yn yr Unawd Bl 2 ac Iau wythnos ddiwethaf. Llongyfarchiadau mawr i ti.



Derbyniodd Elen Medi Jones Ysgol Bro Pedr y 3ydd wobwr am waith Serameg / Crochenwaith Bl. 7, 8 a 9



Llongyfarchiadau i Elan Jones Ysgol Bro Pedr am dderbyn yr ail wobwr am gyfansoddi Cerddoriaeth i fl 10 ac 11 ac ail wobwr am gyfansoddi Cerdd Rydd dan 19.



Llongyfarchiadau i Ifan Meredith Ysgol Bro Pedr am dderbyn y wobwr gyntaf am waith gwehyddu i ddisgyblion bl 7,8 a 9.



Llongyfarchiadau i Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Aberaeron am ennill 1af yn yr Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4; 2il yn y Llefaru Bl. 3 a 4 ac 2il yn y Ddeuawd Bl. 6 ac Iau gyda'i ffrind Eos Dafydd. Llongyfarchiadau calonnog i ti Ela.



Alwena Owen o Lanllwni sydd yn ddisgybl yn Ysgol Bro Teifi a ddaeth yn 1af yn yr Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac Iau. Megan Morris o Dalyllychau, sydd yn ddisgybl yng Ngholeg Llanymddyfri ddaeth yn ail. Cafodd Alwena hefyd 3ydd yn yr Unawd Cerdd Dant Bl 5 a 6. Caiff y ddwy eu hyfforddi gan J. Eirian Jones, Cwmann. Dewiswyd Alwena i gynrychioli'r Urdd yn Disneyland Paris ym mis Mawrth 2020. Roedd hi hefyd yn aelod o grŵp Llefaru Ysgol Bro Teifi a ddaeth yn 2il a'r Côr a ddaeth yn 3ydd. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dwy.



Cipiodd grŵp Sgiliau Bywyd sef Leon, Natalia a Christopher Ysgol Bro Pedr y wobwr gyntaf am waith Creadigol 2D Bl. 7, 8 a 9 A.D.Y.(C)



Derbyniodd Charlie, Micah, Niamh a Callum Ysgol Bro Pedr yr ail wobwr am waith llafar wedi ei recordio i ddysgwyr bl 6 ac iau.

Gorsaf  
Brawf  
MOT

## GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

\* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

\* Teiars am brisiau cystadleuol

\*Ceir newydd ac ail law ar werth

\* Batris \* Breccs \* Egsost

\*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



Cipiodd Nikolas ac Amber Canolfan y Bont Ysgol Bro Pedr y 3ydd wobwr am waith Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y (D)